Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

SOCIAL VALUE CYMRU








# AMGUEDDFA FORWROL LLŶN

## ADRODDIAD RHAGOLWG ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD

## EBRILL 2025 - MAWRTH 2027

> "Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cadw hanes Nefyn a'r ardal yn Nefyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n teimlo bod yr amgueddfa yn ased gwych i addysg leol ac i bobl o bellter pellach."

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

Cyngor Gwynedd

Mantell Gwynedd

# CYNNWYS


Crynodeb Gweithredol ....................................................................4
1.0 Cyflwyniad ....................................................................8
2.0 Pwrpas, Cwmpas a Chynulleidfa ....................................................................8
3.0 Cefndir a Chyd-destun ....................................................................9
4.0 Fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau ....................................................................19
5.0 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ....................................................................22
6.0 Mewnbynnau ....................................................................27
7.0 Allbynnau, Canlyniadau a Thystiolaeth ....................................................................33
8.0 Gwerth Deilliannau ....................................................................55
9.0 Sefydlu Effaith ....................................................................59
10.0 Canlyniadau SROI ....................................................................65
11.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd ....................................................................67
12.0 Cyfyngiadau ....................................................................71
13.0 Risgiau ....................................................................72
14.0 Proses Ddilysu ....................................................................73
15.0 Casgliad a Chanfyddiadau Allweddol ....................................................................74
16.0 Argymhellion ....................................................................77
17.0 Atodiadau ....................................................................81

# Ffigyrau

Ffigur 1 – Map Gwerth Cymdeithasol Amgueddfeydd ....................15

Ffigur 2 - Amser a Dreuliwyd yn Dda (2023) Adroddiad: Rhesymau i fod yn annhebygol o barhau i wirfoddoli ....................16

Ffigur 3 - Pro Bono Economics: Mathau o rwystrau recriwtio....................17

Ffigur 4 – Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol ....................19

Ffigur 5 – Amlinelliad o gadwyn newid....................20

Ffigur 6 – Engraifft o gadwyn newid....................20

Ffigur 7 – Egwyddor perthnasedd ....................22

Ffigur 8 – Rhyw Ymwelwyr (ymatebion holiadur) ....................25

Ffigur 9 - Oed Ymwelwyr (ymatebion holiadur) ....................25

Ffigur 10 - Rhyw Pobl Lleol (ymatebion holiaduron) ....................25

Ffigur 11 - Oed Pobl Lloel (ymatebion holiaduron) ....................25

Ffigur 12 - Rhyw Gwirfoddolwyr (ymatebion holiaduron) ....................26

Ffigur 13 - Oed Gwirfoddolwyr (ymatebion holiaduron) ....................26

Ffigur 14 - Oed Disgyblion (ymatebion holiaduron) ....................26

Ffigur 15 - Gwaith allannol yn gwneud yr Amgueddfa edrych mwy deiniadol ....................41

Ffigur 16 - Gwaith adnewyddu mewn yn gwneud yr Amgueddfa yn fwy ffres, gyffyrddus a hygyrch ....................42

Ffigur 17 - Pobl Lleol – Adnewyddu'r system gwresogi ....................49

Ffigur 18 - Pobl Lleol – Adnewyddu'r goleuadau ....................50

Ffigur 19 - Pobl Lleol – Sut glywsoch chi am Amgueddfa Forwrol Llŷn?....................110

Ffgur 20 - Nodau Llesiant ....................115

# Tablau


Tabl 1 – Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd ........ 23

Tabl 2 – Ymgysylltiad gyda Rhanddeiliaid ........ 24

Tabl 3 - Costau Yr Amgueddfa ........ 27

Tabl 4 – Incwm y Siop a'r Caffi ........ 30

Tabl 5 - Mewnbynnau anariannol athrawon ........ 31

Tabl 6 - Cyfanswm y Mewnbynnau Ariannol ........ 31

Tabl 7 - Fformiwla Pellter a Deithiwyd ........ 34

Tabl 8 - Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd ar gyfer Gwirfoddolwyr ........ 34

Tabl 9 - Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd ar gyfer Ymwelwyr ........ 40

Tabl 10 - Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd i Bobl Leol ........ 45

Tabl 11 - Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd ar gyfer Disgyblion ........ 51

Tabl 12 - Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd i Athrawon... ........ 51

Tabl 13 Gwerth Deilliannau ........ 58

Tabl 14 - Gwrthffeithiol ........ 60

Tabl 15 - Prodoliad ........ 63

Tabl 16 – Prif Ganlyniadau SROI ........ 66

Tabl 17 - Gwerth Cymdeithasol wedi'i Greu fesul Grŵp Rhanddeiliaid ........ 66

Tabl 18 - Crynodeb o'r Dadansoddiad Sensitifrwydd ........ 68

Tabl 19 - Risgiau ........ 72

# Crynodeb

Mae'r adroddiad rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad / Social Return on Investment (SROI) hwn wedi dangos pwysigrwydd Amgueddfa Forwrol Llŷn i ymwelwyr, pobl leol, disgyblion ac athrawon sy'n ymwneud gyda gweithgareddau'r Amgueddfa. Llwyddodd Amgueddfa Forwrol Llŷn i gael arian grant oddi wrth y Gronfa Ffyniant Bro wedi i ddosbarthu gan Grant Sector Gwirfoddol Mantell Gwynedd. Y bwriad oedd i ddiogelu'r adeilad sydd yn cynnwys uwchraddio ac adnewyddu waliau a ffenestri, gosod system wresogi ffynhonnell aer, a gosod system ddraenio. Mae'r gwaith yma wedi sicrhau bod yr adeilad yn fwy cynnes, mwy cyfforddus ac yn fwy cynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon a chostau rhedeg.

Mae'r Amgueddfa yn galon i'r gymuned ac yn bwysig iawn er mwyn portreadu hanes Morwrol lleol, iaith a threftadaeth ar gyfer ymwelwyr, pobl leol addysg ac yn bwysicaf oll, i'r genhedlaeth nesaf yn y dyfodol. Mae gwarchod hanes pobl a hanes Morwrol Pen Llŷn yn allweddol bwysig i wirfoddolwyr a phobl leol yn bennaf fel bod y genhedlaeth nesaf yn ymwybodol ac yn parchu'r digwyddiadau'r gorffennol am eu bod wedi llunio'r dyfodol. Mae diogelu'r adeilad yr Amgueddfa yn sicrhau dyfodol hirdymor yr Amgueddfa sydd yn golygu y gall y pwyllgor roi cynllun hirdymor ar waith i wella ei effaith.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi pump o randdeiliaid allweddol sy'n brif randdeiliaid yr Amgueddfa. Un o'r rhanddeiliaid allweddol yw'r gwirfoddolwyr. Ni fyddai'r canlyniadau hyn yn bosib heb ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser i redeg yr Amgueddfa o ddydd i ddydd. Roedd gwirfoddolwyr yn gweld gwerth mawr wrth ymwneud gyda'r Amgueddfa ac roeddynt yn teimlo'r balchder o allu portreadu hanes Pen Llŷn a'i bobl. Roedd yn glir iawn bod gwirfoddolwyr yn mwynhau cael y cyfle i gymdeithasu gydag ymwelwyr, pobl leol a gwirfoddolwyr eraill sydd yn arwain tuag at ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned. Gan fod gwirfoddolwyr hefyd yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd yn rheolaidd yn yr Amgueddfa, roeddynt yn datblygu gwell hunanhyder.

Yr ail grŵp o randdeiliaid allweddol yw'r ymwelwyr. Mae ymwelwyr yn gweld gwerth mawr mewn ymweld â'r Amgueddfa i ddysgu am hanes, treftadaeth a phwysigrwydd yr iaith i Nefyn a Phen Llŷn. Wrth gael sgwrs gydag ymwelwyr a phobl leol eraill yn ogystal ag gwirfoddolwyr

yn yr Amgueddfa, mae ymwelwyr yn cael cyfle i gymdeithasu ac yn clywed mwy am beth sydd ar gael yn yr ardal leol sydd yn hybu economi Pen Llŷn.

Y trydydd grŵp rhanddeiliaid allweddol nodwyd oedd pobl leol. Yn yr un modd a'r gwirfoddolwyr, wrth i bobl leol ymweld â'r Amgueddfa, maen nhw'n teimlo'r balchder am eu treftadaeth. Mae'n bwysig iawn i lawer o bobl leol bod yr Amgueddfa medru cario mlaen portreadu hanes lleol fel bod y genhedlaeth nesaf yn medru portreadu'r hanes yn y dyfodol. Mae nifer o bobl leol yn mwynhau cymdeithasu o fewn y digwyddiadau sydd yn cael ei threfnu o fewn yr Amgueddfa ac mae hyn yn dilyn i ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned.

Mae disgyblion o fewn ysgolion hefyd yn rhanddeiliaid pwysig i'r Amgueddfa. Mae'n flaenoriaeth i'r Amgueddfa bod y genhedlaeth nesaf yn dysgu ac yn ymwybodol o hanes a threftadaeth Forwrol leol er mwyn medru sicrhau dilyniant yn y dyfodol. Wrth ymweld â'r Amgueddfa, roedd disgyblion yn teimlo eu bod gyda gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol a'r Ail Ryfel Byd. Roedd hyn yn cael effaith emosiynol arnynt gan fod llawer o ddisgyblion yn hapus ac wedi dychryn clywed straeon y gorffennol. Roedd clywed y straeon hefyd yn gwneud disgyblion teimlo balchder am eu treftadaeth.

Roedd yr athrawon o fewn ysgolion hefyd yn gweld bydd allan o ymwneud gyda'r Amgueddfa. Roedd ymweld â'r arteffactau a derbyn pecyn gwaith gan y gwirfoddolwyr yn codi hyder yr athrawon i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a threftadaeth leol yn benodol. Heb gael y straeon personol yma, ni fysai'r adnoddau ar gael i athrawon i rannu gyda'i disgyblion.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod gwerth cymdeithasol cadarnhaol yn cael ei greu drwy'r Amgueddfa ar gyfer gwirfoddolwyr, ymwelwyr, pobl leol ac addysg. Dangosodd y canlyniadau bod **ystod SROI £3.00 - £6.16 a chanlyniad SROI rhagfynegol o £4.69:1** – sy'n golygu ar gyfer pob £1 a fuddsoddir, rhagwelir y bydd **£4.69** o werth a awgrymir yn cael ei greu.

# Cydnabyddiaeth

Ni fyddai'r adroddiad hwn yn bosibl heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol roedd wedi helpu i ni ddeall pa newidiadau sydd wedi digwydd a sefydlu effaith y newidiadau hynny. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r ymwelwyr, pobl leol, gwirfoddolwyr a phartneriaid a gymerodd ran mewn gweithgareddau a rhoi ei amser i'n helpu i ddeall beth sydd wedi newid yn eu bywydau o ganlyniad, yn ogystal â'n helpu i ddeall sut i adeiladu ar yr effaith hon yn y dyfodol.

Diolch i'r staff, gwirfoddolwyr, trigolion a phartneriaid am eu hamser i fynd drwy'r prosiect gyda ni yn fanwl ac am eu cefnogaeth i gasglu data ansoddol a meintiol. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn yn bosibl heb eu holl gefnogaeth.

Diolch yn fawr,

Social Value Cymru

# AMGUEDDFA FORWROL LLŶN

## Adroddiad Rhagolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

## Ebrill 2025 - Mawrth 2027

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum

### TROSOLWG MEWN NIFEROEDD

Mae 310 ymwelwyr wedi ymweld â'r Amgueddfa

Mae 350 o bobl leol yn ymwneud yn rheolaidd

Mae 37 o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser

Mae 160 o ddisgyblion a 10 athrawon wedi ymgysylltu





### YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Ymwelwyr: Cyfweld 9, 31 holiadur wedi ei derbyn

Pobl Leol: Cyfweld 26, 35 holiadur wedi ei derbyn

Gwirfoddolwyr: Grŵp ffocws gyda 9 gwirfoddolwr, ac 22 holiadur

Disgyblion: Grŵp ffocws gydag 18 o blant, ac 16 holiadur

Athrawon: Cyfweld 3 athrawon, 2 ymateb holiadur

### DEILLIANNAU YMWELWYR

**100%** o ymwelwyr gyda gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn

**81%** o ymwelwyr yn cael cyfle i gymdeithasu





### DEILLIANNAU GWIRFODDOLWYR

**95%** yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl.

**86%** gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd

**95%** gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned

### DEILLIANNAU YSGOLION

**88%** o ddisgyblion gyda gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sydd yn dilyn i deimlad cynyddol o falchder am eu treftadaeth

**100%** o athrawon gyda gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol

### DEILLIANNAU POBL LLEOL

**83%** o bobl leol gyda theimlad cynyddol o falchder yn eu treftadaeth

**66%** o bobl leol gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned

Rhagolwg Gwerth Adenillion ar Fuddsoddiad (SROI)

£1 → £3.00 - £6.16

SOCIAL VALUE CYMRU

MANTELL GWYNEDD

*Gweler yr adroddiad llawn am ragor o wybodaeth*

## 1.0 Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn a ragwelir ar Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn dadansoddi'r effaith gymdeithasol a grëwyd gan Amgueddfa Forwol Llŷn rhwng Ebrill 2025 – Mawrth 2027 yn sgil derbyn grant Cronfa Ffyniant Cyffredin sy'n cael ei ddosbarthu gan Mantell Gwynedd. Mae'r grant wedi galluogi diogelu'r adeilad sydd yn cynnwys uwchraddio ac adnewyddu waliau a ffenestri, gosod system wresogi ffynhonnell aer, a gosod system ddraenio. Mae'r gwaith yma wedi sicrhau bod yr adeilad yn fwy cynnes, mwy cyfforddus ac yn fwy cynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon a chostau rhedeg. Mae'r grant hefyd wedi caniatáu i'r Amgueddfa gyflogi pensaer i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau adeiladu, safonau cadwraeth a gofynion technegol y grant. Mae'r pensaer hefyd wedi bod yn asesu safon y gwaith a chynhyrchu adroddiadau cynnydd i sicrhau bod popeth yn cael ei gyflawni i'r safon uchaf.

## 2.0 Pwrpas, Cwmpas a Chynulleidfa

### 2.1 Pwrpas a Chwmpas

Pwrpas y dadansoddiad yw rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r newidiadau a brofwyd gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y canlyniadau a'u gwerth i wirfoddolwyr, ymwelwyr, pobl yn y gymuned ac ysgolion.

Nod yr adroddiad hwn yw deall profiad y rhanddeiliaid a sefydlu'r canlynol:

- Barn y rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r Amgueddfa, sef ymwelwyr a phobl yn y gymuned leol, yn ogystal â phartneriaid sy'n ymweld â chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr Amgueddfa.
- Y canlyniadau a brofwyd gan randdeiliaid eraill yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol, gan gynnwys gwirfoddolwyr yn yr Amgueddfa a hefyd gwirfoddolwyr ar y pwyllgor.
- I roi gwerth i'r prosiect ac i ateb y cwestiwn: 'Faint o werth cymdeithasol mae Amgueddfa Forwrol Llŷn yn ei greu i ymwelwyr a'r gymuned leol?'
- Gweld pa newidiadau y gellir eu cyflwyno i'r Amgueddfa er mwyn darparu mwy o ddeilliannau a gwerth pellach i ymwelwyr, pobl yn y gymuned, gwirfoddolwyr a phartneriaid sy'n defnyddio'r Amgueddfa.

### 2.2 Cynulleidfa

Mae’r adroddiad yma wedi’i baratoi ar gyfer cynulleidfa fewnol ac allanol.

Ar gyfer rhanddeiliaid mewnol, mae’r dadansoddiad yn anelu i ddarparu dealltwriaeth o’r newidiadau a fydd yn cael eu creu trwy weithgareddau’r prosiect. Mae hyn yn cynnwys newidiadau positif a negyddol, yn ogystal â chanlyniadau bwriadol ac anfwriadol. Bydd hyn yn caniatáu i reolwyr y prosiect gymryd penderfyniadau gwell drwy gymryd yr wybodaeth yma i ystyriaeth er mwyn uchafu gwerth y prosiect.

Ar gyfer rhanddeiliaid allanol, y nod yw cyfathrebu effaith y cyllid yn effeithiol i gyllidwyr. Mae sicrhau cyfranogiad yr holl randdeiliaid yn arwain at ddealltwriaeth glir o'r newidiadau ac yn ffordd o gydlynu anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol gyda phenderfyniadau strategol ar ddyrannu grantiau ar gyfer y dyfodol.

Mae angen i’r cyllidwyr ddeall effaith eu buddsoddiad ac felly bydd yr adroddiad hwn yn edrych ar ddwy flynedd o werth er mwyn edrych ar y buddsoddiad yn y flwyddyn gyntaf, ac yna’r effaith dros y blynyddoedd o ystyried y costau rhedeg arferol.

## 3.0 Cefndir a Chyd-destun

### 3.1 Sefydliad hanesyddol a ddiwylliannol

Mae’r amgueddfa wedi’i lleoli yn Eglwys Santes Fair yn Nefyn, Gwynedd. Mae sylfeini Hen Eglwys Santes Fair yn dyddio o’r 6ed Ganrif, er bod yr adeilad presennol wedi’i ailadeiladu’n gyfan gwbl rhwng 1825-1827. Mae’r hen eglwys yn cartrefu casgliad unigryw'r Amgueddfa o arteffactau morwrol perthnasol ynghyd â gwybodaeth am longau sydd wedi’u hadeiladu yn lleol, y morwyr a’r capteiniaid.

Sefydlwyd yr Amgueddfa yn 1977 gan grŵp o wirfoddolwyr oedd yn dymuno arddangos eitemau o ddiddordeb hanesyddol yn lleol. Roedd rhaid cau'r Amgueddfa yn 2000 yn sgil pryderon iechyd a diogelwch. Ond yn 2007, daeth aelodau o’r gymuned at ei gilydd a ffurfio pwyllgor newydd i ailagor yr Amgueddfa er budd ymwelwyr a thrigolion yr ardal. Yn 2012, roedd gwaith wedi cwblhau ar yr adeilad yn cynnwys to newydd, insiwleiddio, gosod llawr, gosod ffenestri newydd a system wresogi Airsource. Agorodd yr Amgueddfa yn nol i'r cyhoedd

yn 2015. Gwnaed un darganfyddiad syfrdanol yn ystod y gwaith o gloddio o dan y seiliau i gryfhau'r waliau pan ddaeth yr archeolegydd Matt Jones ar draws bedd cist hynafol o dan yr eglwys. Bellach mae'r Amgueddfa yn arddangos ffilm sydd yn adrodd hanes 'Y Sgerbwd yn y Wal.' Mae hyn wedi ategu at brofiad hanesyddol a diwylliannol yr Amgueddfa.

Erbyn heddiw, mae'r Amgueddfa wedi cofrestru fel elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig: 1211619). Yn yr amgueddfa ceir arddangosfa barhaol, llwyfan ar gyfer perfformiadau ar raddfa fach, cornel ymchwil, caffi a siop. Bydd mynediad am ddim er mwyn hybu pobl i ymweld yn aml. Trefnir rhaglen o weithgareddau yn gynnwys sgyrsiau amrywiol, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, arddangosfeydd achlysurol a chyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith.

### 3.2 Partneriaeth – Ecoamgueddfa

Mae'r cysyniad o'r Ecoamgueddfa yn boblogaidd iawn yn rhai o wledydd Ewrop, ond Ecoamgueddfa yn Ben Llŷn yw'r un gyntaf i gael ei ddatblygu yng Nghymru. Nòd yr Ecoamgueddfa ym Mhen Llŷn yw dathlu cyfoeth yr ardal gyfan wrth i chwe sefydliad treftadol ddod ynghyd i weithio mewn partneriaeth. Mae aelodau partneriaeth yr Ecoamgueddfa yn cynnwys, Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Felin Uchaf, Plas Heli, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Forwrol Llŷn a Nant Gwrtheyrn.

Does dim model penodol ar gyfer unrhyw Ecoamgueddfa, ond yr un peth sy'n gyffredin rhwng pob un yw'r ffaith bod pob sefydliad yn cydweithio ac yn rhannu'r un weledigaeth. Mae datblygu'r Ecoamgueddfa wedi bod yn ffordd i gynyddu balchder cymunedol ym Mhen Llŷn a chodi proffil yr ardal yn fyd-eang a thorri tir newydd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd arloesol a chadarnhaol. Gweledigaeth yr Ecoamgueddfa yw gweld cynnydd mewn twristiaeth ddiwylliannol, gan arwain at ddiwydiant twristiaeth pedwar tymor cynaliadwy, fydd yn dod a buddion economaidd i'r ardal yn ogystal â rhai cymdeithasol.

### 3.3 Grant y Sector Gwirfoddol

Ym mis Gorffennaf 2025, llwyddodd Amgueddfa Forwrol Llŷn i gael grant gan y Grant Sector Gwirfoddol (VSG) a reolir gan Mantell Gwynedd, fel rhan o Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU

(UKSPF) i uwchraddio'r adeilad – sydd yn cynnwys uwchraddio ac adnewyddu waliau a ffenestri, gosod system wresogi ffynhonnell aer, a gosod system ddraenio. Mae'r grant hefyd wedi caniatáu i'r Amgueddfa gyflogi pensaer i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau adeiladu, safonau cadwraeth a gofynion technegol y grant.

Mae Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU (UKSPF) yn biler canolog o agenda Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y DU sydd wedi darparu £2.6 biliwn o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol ledled y DU erbyn mis Mawrth 2025 (Cyngor Gwynedd, 2025[1]). Cyhoeddodd Cyllideb yr Hydref llywodraeth y DU £900 miliwn bellach o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol erbyn mis Mawrth 2026. Mae Gogledd Cymru wedi derbyn £42,416,709. Mae Gwynedd fel awdurdod lleol, wedi derbyn £7.9 miliwn (Cyngor Gwynedd, 2025). Mae hyn yn golygu y bydd gwasanaethau, gweithgareddau a chyfleoedd newydd yn parhau i fod ar gael i gymunedau a mentrau'r sir.

Cyhoeddodd Mantell Gwynedd ym mis Mehefin 2025 fod £650k wedi'i glustnodi i'w rannu ymhlith grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd. Agorodd y Gronfa ar y 1af o Fehefin 2025 a chau ar y 15fed o Fedi 2025. Roedd rhwng £2,000 a £100,000 o arian refeniw a chyfalaf ar gael i gefnogi prosiectau a fydd yn arwain at wella ansawdd bywyd trigolion a chymunedau Gwynedd. Derbyniwyd 56 o geisiadau gwerth dros 2.1 miliwn ar gyfer y Gronfa, ac roedd 24 o brosiectau'n llwyddiannus.

### 3.4 Amlinelliad y prosiect

Llwyddodd Amgueddfa Forwrol Llŷn i wario £45,558.48 o'r grant ar gyfer prosiect enwir 'codi safon, gwella profiad.' Mae'r prosiect yn seiliedig i wella seilwaith, hygyrch a phrofiadau ymwelwyr i Amgueddfa Forwrol Llŷn. Mae hyn yn cynnwys gwaith hanfodol i ddiogelu'r adeilad, i gynnwys uwchraddio ac adnewyddu waliau a ffenestri, gosod system wresogi ffynhonnell aer a system ddraenio. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod yr adeilad yn fwy cynnes, mwy cyfforddus ac yn fwy cynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon a chostau rhedeg. Fel amlinellwyd, roedd yr Amgueddfa wedi gorfod cau yn 2000 oherwydd risgiau iechyd a diogelwch. Felly, mae'r gwaith uwchraddio yma yn atal yr Amgueddfa rhag cyrraedd yr un lle

[1] Cyngor Gwynedd (2025) 'Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd.' Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

eto. Gyda chostau prisiau ynni yn codi, bydd gosod system wresogi ffynhonnell aer yn lleihau costau rhedeg ac yn gwneud yr Amgueddfa yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

Nòd yr Amgueddfa yw: **"cynnal amgueddfa gyffrous fel atyniad gwych, gan ddefnyddio creiriau hanesyddol, dogfennau a'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn arwain y gymuned leol ac ymwelwyr – o bob oed – ar daith gofiadwy drwy hanes morwrol a chymdeithasol Llŷn."** (Amgueddfa Forwrol Llŷn, 2025[2]). Trwy weithredu prosiect adnewyddu hwn, bydd yr amgueddfa'n denu cynulleidfaoedd newydd, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, yn cynnig mwy o gyfleoedd i ysgolion ac ieuenctid, ac yn cefnogi economi'r ardal drwy gynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â busnesau lleol. Bydd hefyd yn cyfrannu at lesiant cymunedol drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli, gweithgareddau creadigol ac ymdeimlad o falchder lleol.

### 3.5 Sefydlu'r angen

Yn ôl Clore Leadership (2024 ), mae amgueddfeydd wedi bod yn dioddef effeithiau'r dirywiad economaidd byd-eang hirdymor, y crebachiad mewn cefnogaeth gyhoeddus i'r celfyddydau a diwylliant, y newid digidol a newidiadau ym mhresenoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl mewn cynhyrchion a phrofiadau diwylliannol. Mae amgueddfeydd wedi gorfod symud gyda'r oes a dod yn fwy hygyrch a modern yn ogystal â chynnig gweithgareddau cynhwysol er budd y gymuned leol yn ogystal â chynulleidfaoedd amrywiol o dwristiaid. Ond mae'r Amgueddfa yn ogystal â nifer o sefydliadau diwylliannol eraill yn gorfod meddwl yn greadigol pan mae'n dod i gyllid. Mae hyn oherwydd mae cyllid llywodraeth wedi gostwng 36% i'r sector diwylliannol rhwng 2009 a 2019 (Clore Leadership, 2024). Mae hyn yn dilyn i straen ar staff. Dangosodd yr erthygl bod 87% o arweinwyr yn teimlo o "dan bwysau cynyddol, dan warchae ac wedi'i lethu".

Mae Amgueddfa Forwrol Llŷn ar agor i ymwelwyr o Ddydd Mercher i Ddydd Sul o ddiwedd Mawrth tan ddiwedd Hydref. Yn ôl ymchwil o gwmpas ymwelwyr o'r DU i Gymru, mae 84% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 yn bobl o Loegr, gyda 14% o Gymru a 1% o'r Alban a

[2] Amgueddfa Morwrol Llŷn (2025) 'Ein gweledigaeth.' [Amgueddfa Morwrol Llyn Maritime Museum]

Gogledd Iwerddon (Llywodraeth Cymru, 2021[3]). Mae ymchwil o gwmpas ymwelwyr tramor i Gymru yn dangos bod 50% yn dod o Ewrop, 23% o Ogledd America a 27% o weddill y byd (Llywodraeth Cymru 2019[4]). Wrth edrych mewn i ymchwil o gwmpas faint o'r ymwelwyr sydd yn ymweld ag amgueddfeydd yn ystod ei thaith yng Nghymru, roedd 26% o ymwelwyr tramor, 15% o ymwelwyr o'r DU a 10% o ymwelwyr o Gymru yn ymweld ag amgueddfeydd.

Wrth edrych ar gymhellion ymwelwyr i ymweld ag amgueddfeydd, mae ymchwil gan Beaufort Research (2019[5]) yn dangos bod pobl eisiau deall mwy am bwnc yr amgueddfa, "profi pethau neu fannau syfrdanol, difyr neu brydferth" ac i dreulio amser gyda phobl eraill. Roedd yr ymchwil hefyd wedi ystyried pan nid oedd rhai ymwelwyr wedi ymweld ag amgueddfeydd ac y prif resymau oedd: diffyg amser, dim diddordeb mewn i amgueddfeydd neu ymwelwyr ddim yn ymwybodol bod amgueddfeydd yn lleol i'w taith. Felly, bydd yn ddiddorol ystyried y nodweddion yma wrth ymchwilio i gymhellion ymwelwyr Amgueddfa Forwrol Llŷn.

Nid yn unig yw'r Amgueddfa yn agored i ymwelwyr, ond hefyd i drigolion a grwpiau lleol. Yn ystod ymgynghoriad Ardal Ni 2035 (2022 ), mae trigolion yn pwysleisio pwysigrwydd amddiffyn a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant lleol, a hefyd am greu ardaloedd mwy cynaliadwy, cynhwysol a deniadol i ymwelwyr a phreswylwyr. Yn ôl Amgueddfa Forwrol Llŷn (2025 ), o gwmpas 1,400 yw poblogaeth Nefyn ar hyn o bryd gyda 73.72% o'r boblogaeth yn enedigol o Gymru a 77.94% yn siarad Cymraeg. Mae ymchwil gan Prifysgol Bangor (2016 ) yn dangos bod pwyslais ar yr iaith Cymraeg yn bwysig i ddiwylliant yr ardal Pen Llŷn ac yn creu ymdeimlad o berthyn o yn y gymuned. Mae ymchwil gan Musuems Libraries Archives South-East (2008 ) yn dangos bod pobl yn y gymuned sydd yn ymwneud gydag amgueddfeydd yn hybu dealltwriaeth a hunaniaeth gymunedol.

Yn ôl Cynllun Cyflogaeth Cyngor Gwynedd (2016[6]), Llŷn ac Eifionydd oedd â'r boblogaeth oedran gweithio isaf o dair Ardal y sir. Yn ogystal, mae'r ymchwil yn dangos roedd nifer a chanran y rhai 65 oed a throsodd yn sylweddol uwch na'r grŵp ifanc. Mae'n hefyd yn nodi

---

[3] Llywodraeth Cymru (2021) 'Arolwg ymwelwyr Cymru 2019. Ymwelwyr sy'n aros o'r DU.' Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

[4] Llywodraeth Cymru (2021) 'Arolwg ymwelwyr Cymru 2019. Ymwelwyr tramor.' Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019: Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

[5] Beaufort Research (2019) 'Adroddiad Ymwelwyr Cymru 2019. Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau, a Llyfrgelloedd.' Adroddiad Ymchwil: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019

[6] Cyngor Gwynedd (2016) 'Llŷn and Eifionydd: Employment Plan.' https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Businesses/Documents-Busnes/Regeneration/LLaE-employment-plan.pdf

bod diffyg cyfleodd ar gael i bobl ifanc yn yr ardal. Felly, wrth ddatblygu safon yr adeilad, gall y prosiect gyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gynnig lle diogel a chroesawgar i bobl ddod ynghyd, gwirfoddoli, a dysgu.

Fel mae Prifysgol Bangor (2016) yn portreadu, all uwchraddio'r Amgueddfa cyfrannu mwy at agweddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015[7]) yn enwedig o gwmpas cynnal a hyrwyddo diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg sy'n ffynnu a Chymru o gymunedau clunol. Mae hyn oherwydd bod yr Amgueddfa yn rhoi pwyslais ar hanes a diwylliant lleol, yr iaith Gymraeg ac yn trio dod ac ymwelwyr a thrigolion at ei gilydd. Bydd yr adroddiad yma yn dadansoddi os fydd rhanddeiliad yn cytuno bod yr Amgueddfa yn cyrraedd yr agweddau yma.

Mae ymchwil yn dangos bod llai o fuddsoddiad yn cael ei rhoi mewn i amgueddfeydd ac mae Bollo (2013[8]) yn esbonio efallai bod hyn oherwydd bod yna gormod o ffocws wedi bod ar werthuso effaith economaidd ac nid ar werth cymdeithasol amgueddfeydd. Mae llawer o arbenigwyr yn cytuno bod y galw am werthuso'r manteision cymdeithasol ac economaidd yn dibynnu ar wahanol resymau megis codi proffil yr amgueddfa, dylanwadu ar gyllidwyr, helpu gyda meddwl strategol yr amgueddfa a chynnal proses benderfynu'r rhanddeiliaid.

Wrth werthuso Amgueddfa Forwrol Llŷn byddem yn edrych ar gysyniad Holden (2004) (o fewn adroddiad Bollo, 2013) am werth diwylliannol:-

- Gwerth Cynhenid (Intrinsic) - yn canolbwyntio ar y cynnwys artistig yn unig a sut mae hyn yn effeithio ar lefel ddeallusol, emosiynol ac ysbrydol unigolion.

- Gwerth Offerynnol (Instrumental) - defnyddir diwylliant fel 'offeryn' i gyflawni rhai nodau eraill, e.e.. iechyd, adfywio trefol, cynhwysiant cymdeithasol, cyflogaeth, cynnydd mewn twristiaeth, ac ati.

- Gwerth Sefydliadol (Institutional) - yn gysylltiedig â'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu, yn enwedig pan fyddant yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu asesu a mesur y gwerth y mae pobl yn ei roi ar y cyd ar ddiwylliant.

Mae'r ffigwr isod yn dangos mwy am y cysyniad:-

[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - FGC - CYM
[8] Bollo, A. (2013) 'Report 3: Measuring Museum Impacts.' https://socialvalueuk.org/wp-content/uploads/2016/03/3rd-report-measuring-museum-impacts.pdf

*Ffigur 1 – Map Effaith Cymdeithasol Amgueddfeydd*




Mae Holden (o fewn Bollo, 2013) yn dweud y dylai fod cydbwysedd rhwng y tair elfen – cynhenid, offerynnol a sefydliadol. Mae'n nodi: "**Os rhoddir gormod o bwyslais ar werth cynhenid, mae celf yn dod i ben fel rhywbeth gwerthfawr, wedi'i gipio gan ychydig o bobl elît. Pan roddir gormod o bwyslais ar werth offerynnol, mae'r artistiaid a'r gweithwyr proffesiynol yn cael eu dieithrio ac yn cael eu defnyddio fel modd i gywiro diffygion cymdeithasol. Pan roddir gormod o bwyslais ar werth sefydliadol, gallwch golli golwg ar y gelf. Ond rhowch y tri at ei gilydd ac mae gennych economi gymysg gadarn o werth, stôl tair coes sefydlog i ddilysu diwylliant."** Felly, fydd yr adroddiad yma yn ystyried os mae Amgueddfa Forwrol Llŷn gyda'r cydbwysedd rhwng y tair elfen yma.

## Yr angen am fwy o gwirfoddolwyr

Fel gyda llawer o sefydliadau'r trydydd sector, mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r sector treftadaeth sydd yn wynebu costau cynyddol a chymorthdaliadau cyhoeddus is. Nodwyd gan Amgueddfa Forwrol Llŷn bod nifer o wirfoddolwyr wedi gostwng oherwydd bod diffyg cyfleusterau addas yn yr Amgueddfa. Felly, bydd yr adroddiad yma yn asesu os fydd mwy pobl gyda diddordeb i wirfoddoli ar ôl yr addasiadau i'r adeilad.

Mae ymchwil yn dangos bod denu a chadw gwirfoddolwyr yn heriol ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae llai o bobl yn gwirfoddoli nag erioed o'r blaen, yn enwedig ers 2020 a'r pandemig, ac mae sefydliadau yn wynebu heriau i geisio cadw gwirfoddolwyr. Mae'r adroddiad 'Time Well Spent' gan The National Council for Voluntary Organisations (NCVO) (2023[9]) yn amlygu rhesymau pobl dros beidio gwirfoddoli gymaint erbyn hyn. Mae'r graffiau isod (ffigurau 2 a 3 ) yn dangos y prif resymau pam nad ydi pobl yn gwirfoddoli gymaint. Y prif reswm sy'n cael ei nodi yw bod pobl yn fyr o amser neu fod eu sefyllfaoedd wedi newid (o bosibl yn dilyn y pandemig). Ffactor arall sy'n cael ei ddangos ydi bod pobl wedi gwneud eu cyfraniad (h.y.. tro rhywun arall yw gwneud hyn nawr) a'r rhwystrau i wirfoddoli.

***Ffigur 2 - Amser a Dreuliwyd yn Dda (2023) Adroddiad: Rhesymau dros fod yn annhebygol o barhau i wirfoddoli***




Mae tuedd glir ar i lawr hefyd yng nghyfraddau gwirfoddoli ffurfiol rheolaidd (gweler Ffigur 2), nid yw pobl a wirfoddolodd yn rheolaidd yn ystod y pandemig bellach yn gwirfoddoli cymaint (Pro Bono Economics, 2024[10]).

[9] NCVO (2023) 'Time well spent.' https://www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/time-well-spent-2023 volunteering-among-the-global-majority/volunteer-retention/
[10] Pro Bono Economics (2024) 'Adapting for success: Flexibility could hold the key to volunteer recruitment and retention.' https://pbe.co.uk/publications/adapting-for-success-flexibility-could-hold-the-key-to-volunteer-recruitment-and-retention/

*Ffigur 3 - Pro Bono Economics: Mathau o rwystrau recriwtio*




Mae IF – Volunteering for well-being (2016) wedi gwneud adroddiad SROI o gwmpas gwirfoddoli o fewn amgueddfeydd ac wedi dangos bod llawer o wirfoddolwyr wedi cael bydd mawr o fewn ei gysylltiadau gyda'r Amgueddfa. Roedd wedi darganfod 9 deilliant yn cynnwys – gwell hyder, gwell ymdeimlad o bwrpas, llesiant cyffredinol gwell, cysylltedd â phobl eraill a hunaniaeth leol, teimlo'n llai isel, teimlo'n llai unig, gwell gwydnwch, cyfleoedd newydd a pherthnasoedd proffesiynol a chyflogadwyedd / cyflogaeth well. Bydd yn ddiddorol darganfod yn yr adroddiad yma os yw'r gwirfoddolwyr yn profid yr un deilliannau a chymhellion er mwyn medru gwneud penderfyniadau o gwmpas denu mwy o wirfoddolwyr yn y dyfodol.

# ASTUDIAETH ACHOS 1 - PERTHYN IR PORTHAU

## Cefndir

Roedd prosiect wedi datblygu rhwng 2024 a 2025 o'r enw 'Perthyn i'r Porthau'. Roedd wedi cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac roedd wedi datblygu ar y cyd gydag Amgueddfa Forwrol Llŷn, Menter Môn, Ysgol Nefyn ac Ysgol Pentreuchaf. Nòd y prosiect oedd creu cân gyda'r gantores Gwyneth Glyn er mwyn cofio am porthau hanesyddol Pen Llŷn.

Roedd cyfansoddi'r gan yn ffordd o ddod a chenedlaethau at ei gilydd i rannu straeon.

## Straeon

Dyma rhai o esiamplau o straeon:-

Porth y Gloch - roedd nain yn esbonio wrth ei ŵyr sut roedd ei hen daid yn gweithio ar porthau cloch yn torri blociau cerrig yn sgwâr. Roedd yn sôn sut roedd amodau'r gweithwyr yn anodd iawn wrth iddynt orfod cerdded i'r gwaith bob dydd a mynd lawr ystôl roedd wedi gwneud allan o raff.

Porth Tyn Mawr / Porth Wisgi - Roedd nain yn esbonio wrth ei ŵyr sut roedd yno longddrylliad mawr yn 1901. Roedd yno long ar ei ffordd i Seland Newydd ond roedd wedi cael damwain ac wedi glanio ar Borth Tyn Mawr. Roedd y llong llawn wisgi a llestri. Roedd llawer o deuluoedd yn yr ardal wedi mynd lawr i gasglu'r llestri ac mae llawer o deuluoedd dal gyda'r llestri yma rŵan. Wrth fynd i lawr ar y traeth yma rŵan, mae darnau bach o lestri dal i gael ei darganfod. Roedd llawer o boteli wisgi hefyd ar y llong ac roedd pobl yn cuddio nhw mewn mannau fel tyllau cwningen ac wrth y creigiau. Dyma sut roedd y porth yn cael ei alw yn 'Porth Wisgi.'

Roedd y prosiect wedi dod a phobl at ei gilydd, creu teimlad o berthyn ac roedd pobl yn teimlo balchder am eu treftadaeth.

Linc i'r gân roedd wedi cael ei chyfansoddi:- https://www.youtube.com/watch?v=CJeiym4PUuk

**DEILLIANNAU**

Gwell gwybodaeth am hanes Pen Ll ŷn
Teimlad o berthyn i'r gymuned
Balchder am ein treftadaeth

## 4.0 Fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

Drwy ofyn yn benodol i'r rhanddeiliaid hynny sydd â'r profiad mwyaf o weithgaredd, gall SROI feintioli ac yn y pen draw roi gwerth ariannol ar effeithiau fel y gellir eu cymharu â chostau eu cynhyrchu. Nid yw hyn yn golygu y gall SROI gynhyrchu gwerth 'gwirioneddol' newid, ond drwy roi gwerth ariannol ar ganlyniadau rhanddeiliaid o ystod o ffynonellau gall ddarparu gwerthusiad o brosiectau sy'n newid y ffordd y rhoddir cyfrif am werth – un sy'n ystyried effeithiau economaidd/, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Social Value UK (2014) yn datgan;

***'Mae SROI yn ceisio cynnwys gwerthoedd pobl sy'n aml yn cael eu hallgáu o farchnadoedd yn yr un termau ag a ddefnyddir mewn marchnadoedd, sef arian, er mwyn rhoi llais i bobl mewn penderfyniadau dyrannu adnoddau'***

Yn seiliedig ar wyth egwyddor, mae SROI yn defnyddio profiadau'r rhai sydd wedi neu a fydd yn profi newidiadau yn eu bywydau fel sail ar gyfer dadansoddiad gwerthusol neu ragfynegol.

Mae Ffigur 4 yn amlinellu Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol:-

**Ffigur 4- Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol**



Mae'r egwyddorion arweiniol yn sicrhau bod sut y rhoddir cyfrif am werth yn parhau i fod yn hollbwysig. Er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio, caiff cadwyni newid eu llunio ar gyfer pob rhanddeiliad perthnasol gan esbonio'r perthnasoedd achos-ac-effaith sydd yn y pen draw yn creu canlyniadau mesuradwy. Mae'r cadwyni newid hyn yn creu'r Map Gwerth cyffredinol (ynghlwm ar wahân fel Atodiad 1) ac mae'r straeon hyn o newid yr un mor bwysig â chanlyniad y dadansoddiad. Mae'n well meddwl am SROI fel stori o newid gyda thystiolaeth feintiol ac ansoddol ynghlwm wrthi. Mae Ffigur 5 yn crynhoi'r gwahanol elfennau ar gyfer pob cadwyn o newid sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad SROI (cyn cyfrifo effaith canlyniadau).

***Ffigur 5– Amlinelliad o'r gadwyn newid***




Mae SROI yn ddull o fesur canlyniadau, a dim ond pan fydd canlyniadau’n cael eu mesur y mae’n bosibl deall a oes newidiadau ystyrlon yn digwydd i’r rhanddeiliaid. I ddangos y syniad hwn, mae Ffigur 6 yn dangos cadwyn fer o newid ar gyfer rhaglen gofal cartref i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain - dim ond trwy fesur y canlyniad terfynol y mae'n bosibl deall effaith y rhaglen.

***Ffigur 6– Enghraifft o gadwyn o newid***



Fel y trafodir nes ymlaen ar y pwynt dadansoddi, mae SROI hefyd yn ymgorffori egwyddorion cyfrifyddu derbyniol megis gwrthffeithiol a phriodoliad i fesur effaith derfynol gweithgareddau sy'n deillio o bob gweithgaredd neu ymyriad. Yn bwysig, gall SROI nodi newidiadau cadarnhaol a negyddol, a lle bo'n briodol gellir eu rhagamcanu hefyd i adlewyrchu natur hirdymor rhai effeithiau. Yn ogystal, mae'r canlyniadau a nodir yn cael eu gwerthfawrogi ar sail pa mor bwysig y mae'r rhanddeiliad yn teimlo am y canlyniadau (buddiannau) y maent wedi neu y byddant yn eu profi. Mae unrhyw effeithiau a ragwelir yn cael eu diystyru'n briodol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys (3.5% ar hyn o bryd). Y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r SROI terfynol yw;

**SROI = Gwerth presennol net y buddion / Gwerth mewnbynnau**

**Felly, mae canlyniad o £4:1 yn dangos bod £4 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddir**

Yn gyffredinol, gall SROI greu dealltwriaeth o werth gweithgareddau mewn perthynas â chostau eu creu. Nid yw wedi'i fwriadu i adlewyrchu gwerthoedd y farchnad, yn hytrach mae'n fodd i roi llais i'r rhanddeiliaid hynny yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol a chanlyniadau sydd wedi'u hymyleiddio neu eu hanwybyddu yn draddodiadol. Dim ond trwy fesur deilliannau y gall sefydliadau nid yn unig ddangos eu heffaith ond hefyd yn bwysig iawn eu gwella. Mae hyn felly yn cryfhau atebolrwydd i'r rhai y maent yn gyfrifol amdanynt, sef yn y trydydd sector yn ei hanfod y rhai yw buddiolwyr allweddol gwasanaethau.

## 5.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yw gofyniad sylfaenol SROI. Heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol, nid oes unrhyw ddilysrwydd yn y canlyniadau – dim ond drwy ymgysylltu gweithredol y gallwn ddeall newidiadau gwirioneddol neu a ragwelir yn eu bywydau. Dim ond wedyn y gall SROI werthfawrogi'r rhai sydd bwysicaf.

Er mwyn deall beth sy'n bwysig ar gyfer dadansoddiad, defnyddir y cysyniad o berthnasedd. Defnyddir y cysyniad hwn hefyd mewn cyfrifyddu confensiynol ac mae'n golygu bod SROI yn canolbwyntio ar y rhai pwysicaf i'r rhanddeiliaid, a'u deilliannau pwysicaf, yn seiliedig ar y cysyniadau o berthnasedd ac arwyddocâd (gweler ffigur 7). Mae perthnasedd yn nodi, os yw canlyniad yn bwysig i'r rhanddeiliaid, yr arwyddocâd yw'r holl gwestiynau effaith meintiol ar y ffurflen asesu megis maint, hyd, gwerth, a chyfraniad eraill. Ystyrir yr holl ffactorau hyn wrth asesu a yw canlyniad yn arwyddocaol ai peidio i'r rhanddeiliad.

I ddechrau, ar gyfer gwerthuso Amgueddfa Forwrol Llŷn, nodwyd bod ystod o randdeiliaid naill ai'n dylanwadu neu'n cael eu heffeithio gan yr Amgueddfa - mae Tabl 1 yn amlygu pob rhanddeiliad, gan nodi a oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol a materol ai peidio yn y dadansoddiad SROI. Mae Tabl 2 isod yn dangos nifer a math y rhanddeiliaid a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad.

*Ffigur 7 - Egwyddor perthnasedd*



## Tabl 1– Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd

| Rhanddeiliad | **Perthnasedd yr effeithiwyd ar randdeiliaid?** | Eglurhad |
|---|---|---|
| **Amgueddfa Forwrol Llŷn** | **Na** | Yr Amgueddfa ei hun yw un o brif fuddiolwyr yr arian grant oherwydd roedd yr Amgueddfa angen uwchraddio'r adeilad er mwyn fod yn fwy deniadol i ymwelwyr, pobl leol ac ysgolion. Fodd bynnag, mae grwpiau rhanddeiliaid eraill yn profi'r holl ganlyniadau. |
| Mantell Gwynedd | Na | Nhw yw'r rhanddeiliad a ddosbarthodd yr arian grant i'r Amgueddfa. Fodd bynnag, mae grwpiau rhanddeiliaid eraill yn profi'r holl ganlyniadau. |
| Pobl lleol | Ydi | Maent yn un o brif fuddiolwyr y cyllid grant gan eu bod yn elwa ar y ffaith bod yr Amgueddfa yn fwy cynnes a deniadol ac yn mynychu'r digwyddiadau. |
| Ymwelwyr | Ydi | Yn yr un modd ag uchod, mae ymwelwyr yn brif fuddiolwyr y cyllid grant gan eu bod yn elwa ar y ffaith bod yr Amgueddfa yn fwy cynnes a deniadol. |
| Gwirfoddolwyr | Ydi | Mae'r gwirfoddolwyr rhan flaen a gwirfoddolwyr ar y pwyllgor yn grŵp rhanddeiliaid allweddol, heb eu hymdrechion, ni fyddai'r Amgueddfa yn gweithredu Yn ogystal, heb waith caled y gwirfoddolwyr, ni fyddai'r ganolfan wedi gallu cael arian grant. |
| Ysgolion | Ydi | Maent yn un o brif fuddiolwyr y cyllid grant gan eu bod yn elwa ar y ffaith bod yr Amgueddfa yn fwy cynnes a deniadol. Mae ysgolion lleol yn ymweld â'r Amgueddfa er mwyn dysgu am eu treftadaeth. |
| Contractwyr / Pensaer | Na | Hwy yw'r cwmni a gwblhaodd y gwaith o amgylch y pwmp gwres, paentio ac uwchraddio'r adeilad ac er eu bod yn elwa'n ariannol o'r prosiect, mae rhanddeiliaid eraill yr effeithir arnynt yn sylweddol yn profi'r canlyniadau. |
| Gwasanaethau Statutdol megis Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Na | Mae'n bosib bydd rhai o'r deilliannau ar waith ataliol yn creu arbedion posib i wasanaethau statudol yn y pen draw. Fodd bynnag, nid ydym wedi edrych ar yr effaith posibl yma gan ei bod y tu hwnt i gylch gwaith y dadansoddiad. |

## Tabl 2 - Ymgysylltiad gyda Rhanddeiliaid

| Grŵp Rhanddeiliad | Nifer yn y grŵp | Dull ymgysylltu |
|---|---|---|
| Ymwelwyr | 310 | - 9 cyfweliad yn yr Amgueddfa<br>- Sampl o 31 holiadur wedi cael ei chasglu gan ymwelwyr. |
| Pobl Lleol | 350 | - Wedi cyfweld gyda 22 o bobl o fewn digwyddiadau gwahanol sydd wedi cael ei gynnal yn yr Amgueddfa.<br>- Sampl o 35 holiadur wedi cael ei chasglu gan bobl leol. |
| Gwirfoddolwyr | 37 | - Roedd grŵp ffocws wedi cael ei chynnal gyda 9 gwirfoddolwr.<br>- Sampl o 22 holiadur wedi cael ei chasglu gan wirfoddolwyr. |
| Ysgolion - Disgyblion | 160 | - Roedd grŵp ffocws wedi cael ei chynnal gyda 18 o blant roedd wedi ymweld â'r Amgueddfa.<br>- Sampl o 16 holiadur wedi cael ei chasglu gan ddisgyblion. |
| Ysgolion - Athrawon | 10 | - Wedi cyfweld gyda 3 o athrawon o fewn ysgolion gwahanol.<br>- Sampl o 2 holiadur wedi cael ei chasglu gan athrawon. |

## Potensial is-grwpiau o randdeiliaid

Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob unigolyn yr un fath. Gall deall bod gwahanol nodweddion yn cael effaith ar y data ein helpu i reoli a goleuo penderfyniadau. Rhoddwyd llawer o ystyriaethau i'r is-grwpiau er mwyn i grwpiau rhanddeiliaid allu deall ac asesu a oes unrhyw wahaniaeth mewn effaith yn seiliedig ar nodweddion penodol megis oedran, rhyw, a lleoliad. Mae potensial o is-grwpiau ar gyfer rhai o'r rhanddeiliaid yn cynnwys ymwelwyr, pobl leol,

disgyblion ysgol a hefyd gwirfoddolwyr. Fydd y rhain yn ddiddorol i'w ystyried yn y dyfodol wrth feddwl sut i dargedu mwy o ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

## Ymwelwyr

### Ffigur 8 – Rhyw




### Ffigur 9 – Oed




## Pobl Lleol

### Ffigur 10 – Rhyw




### Ffigur 11 – Oed



## Gwirfoddolwyr

### Ffigur 12 – Rhyw




### Ffigur 13 – Oed




## Disgyblion

### Ffigur 14 – Oed



## 6.0 Mewnbynnau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio'r mewnbynnau angenrheidiol gan randdeiliaid lluosog. Mae rhai mewnbynnau yn ariannol, tra nad yw eraill - eto lle bo'n bosibl, mae'r mewnbynnau'n cael eu hariannu i gynorthwyo gyda'r cyfrifiad SROI. Heb y cyflenwad angenrheidiol o fewnbynnau gan amrywiol randdeiliaid perthnasol ni fyddai'r prosiect yn bosibl, mae dadansoddiad llawn o gyfanswm y mewnbynnau â gwerth ariannol i'w weld yn Nhabl 3.

## 6.1 Amgueddfa Forwrol Llŷn

Gan fod yr adroddiad hwn yn rhagweld yr effaith gymdeithasol a grëir gan Amgueddfa Forwrol Llŷn ar gyfer 2025 i 2027, mae'r mewnbynnau a ragwelir ar gyfer 2026-27 wedi'u cyfrifo fel gwerth 2025-26 gyda chynnydd ychwanegol o 5% (Yn unol â chodiadau cyflog cyfartalog yn y blynyddoedd diwethaf, yn ôl CIPD13). Y mewnbynnau ariannol i'w hystyried ar gyfer Yr Amgueddfa yw'r gorbenion y mae'n rhaid iddynt eu talu i'w gadw'n agored: gan gynnwys, hysbysebu, cyflogau, ynni, dŵr, yswiriant, atgyweirio a chynnal a chadw, a chostau gweinyddol eraill (Gweler Tabl 3). I gyfrifo cost blwyddyn 2 y prosiect, rydym wedi cymryd cost blwyddyn 1 ac yna wedi ychwanegu cost ychwanegol o 5%. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydym yn hawlio gormod, gweler y rhestr isod o'r holl orbenion sydd wedi'u cynnwys yn y map gwerth fel mewnbwn ariannol. O fewn mewnbynnau'r Amgueddfa, rydym hefyd wedi ystyried yr incwm mae'r Amgueddfa wedi derbyn o ran grantiau i redeg digwyddiadau megis darlithoedd a diwrnodau teulu. Heb fod yr Amgueddfa wedi derbyn y grantiau yma, nid oedd yn bosibl rhedeg y digwyddiadau ac felly yn cyfrannu at y deilliannau mae'r grwpiau o rhanddeiliaid yn ei brofi.

### Tabl 3- Costau Yr Amgueddfa

| Costau | 2024-2025 | 2025-2026 (amcangyfrif gyda cynydd 5% mewn costau) |
|---|---|---|
| Cyflogau | 18,566.41 | 19,494.73 |
| Pensiwn | 1,426.12 | 1,497.42 |
| Siop a Caffi | 2,387.89 | 2,507.28 |
| Artefactau | 138 | 144.9 |
| Digwyddiadau | 9,346.80 | 9,814.14 |
| Marchnata | 1,142.34 | 1,199.45 |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddfa | 792.36 | 831.98 |
| Dŵr | 238.7 | 250.63 |
| Trydan | 3,411.08 | £3,581.63 |
| Tel a Wê | 1,080.30 | 1,134.31 |
| Cynal a chadw | 278.71 | 292.64 |
| Costau proffesiynol | 3,120 | 3,276 |
| Yswiriant | 2,856.22 | 2,999.03 |
| Amrywiol | 184.69 | 193.92 |
| Diogelwch | 834 | 875.7 |
| **Cyfanswm y flwyddyn** | **45,803.62** | **48,093.76** |
| **Cyfanswm 2 flynedd** | **£93,897.38** | |

## 6.2 Mantell Gwynedd

Llwyddodd Yr Amgueddfa i gael grant gan y Grant Sector Gwirfoddol a reolir gan Mantell Gwynedd fel rhan o arian SPF ehangaf gan Lywodraeth Prydain. Cyfanswm y cyllid grant a roddwyd i'r Amgueddfa oedd £50,482.50 ar gyfer adnewyddu'r adeilad yn cynnwys uwchraddio ffenestri, peintio ac uwchraddio'r pwmp gwresogydd. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd gan yr Amgueddfa danwariant ac felly cyfanswm y grant a wariwyd ar gyfer yr adnewyddiadau oedd **£45,558.48**. Rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys canran yn unig o'r buddsoddiad cyfalaf hwn ym mlwyddyn un gan fod y ffenestri a'r pwmp gwresogydd yn debygol o bara am flynyddoedd lawer cyn y bydd angen buddsoddiad pellach. Fodd bynnag, gan mai grant oedd hwn, penderfynwyd dangos cyfanswm y buddsoddiad o fewn y flwyddyn gyntaf ac yna ystyried y gwerth dros y ddwy flynedd. At ddibenion rheolaeth fewnol yn y dyfodol yna gellir lleihau costau cyfalaf yn y dyfodol er mwyn osgoi gor-hawlio'r mewnbynnau.

## 6.3 Gwirfoddolwyr

Mae'r Amgueddfa yn cael ei rhedeg yn gyfan gwbl trwy wirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser am ddim i'r Amgueddfa. Fodd bynnag, mae'n iawn ystyried eu hamser fel mewnbwn ariannol i'r prosiect. Heb i'r gwirfoddolwyr roi o'u hamser, ni fyddai'r Amgueddfa yn gallu gweithredu fel y mae ar hyn o bryd. Mae yno 30 o wirfoddolwyr sydd yn rhoi ei amser fel 'gweithiwr blaen tŷ' yn croesawu ymwelwyr ac yn gweithredu yn y siop, ac yna mae yno 7 o wirfoddolwyr sydd yn rhoi ei amser yn gwneud ymchwil ac yn gwylio ar ôl yr arteffactau. Mae'r rheolwr wedi cadarnhau bod gwirfoddolwyr 'flaen tŷ' yn gwirfoddoli tua 805.5 awr y flwyddyn ariannol ymhlith y grŵp. Mae gwirfoddolwyr arteffactau yn gwirfoddoli tua 600 awr mewn blwyddyn ariannol. Ar gyfer y rhagolwg

hwn, rhoddwyd llawer o ystyriaethau i werth ariannol amser y gwirfoddolwr. Er mwyn sicrhau nad ydym yn gor-hawlio nac yn tan-hawlio gwerth amser gwirfoddolwyr penderfynwyd mai'r cyflog byw cenedlaethol fyddai'r mewnbwn ariannol mwyaf priodol o amser y gwirfoddolwyr. O 1 Ebrill, 2025, cynyddodd Llywodraeth y DU'r cyflog byw i £12.21 yr awr i bobl 21 oed a throsodd. Ar gyfer blwyddyn un byddwn yn cynnwys gwerth y cyflog byw cenedlaethol rhwng Ebrill 2025 ac Ionawr 2026 sef £12.21. Mae'r Amgueddfa ar gau yn ystod y gaeaf felly nid oes oriau yn cael ei gwneud rhwng Ionawr ac Ebrill. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cyflog byw pobl dros 21 oed yn cynyddu ym mis Ebrill 2026 i £12.71, felly byddwn yn defnyddio'r ffigur hwn ar gyfer y rhagolwg o Ebrill 2026 – Ionawr 2027; mae hyn er mwyn sicrhau ein bod mor gywir â phosibl.

**Ar gyfer blwyddyn 1 i gwirfoddolwyr 'flaen tŷ' (Ebrill 2025 – Ionawr 2026) gwneir y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar y gost byw o £12.21 x 805.5 awr = £9,835.15**

**Ar gyfer blwyddyn 1 i gwirfoddolwyr 'arteffactau' (Ebrill 2025 – Ionawr 2026) gwneir y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar y gost byw o £12.21 x 600 awr = £7,326**

**Ar gyfer blwyddyn 2 i gwirfoddolwyr 'flaen tŷ' (Ebrill 2026 – Ionawr 2027) gwneir y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar y gost byw o £12.71 x 805.5 awr = £10,237.90**

**Ar gyfer blwyddyn 2 i gwirfoddolwyr 'arteffactau' (Ebrill 2026 – Ionawr 2027) gwneir y cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar y gost byw o £12.71 x 600 awr = £7,626**

**Cyfanswm y mewnbwn ariannol wedi'i gynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr: Blwyddyn 1 (£17,161.15) x Blwyddyn 2 (£17,863.90) = £35,025.05**

## 6.4 Ymwelwyr

Mae ymweld â'r Amgueddfa yn rhad ac am ddim i bob unigolyn. Ond, mae rhaid ystyried bod rhai ymwelwyr yn prynu o fewn y siop a'r caffi pan maen nhw'n ymweld. Felly, mae incwm y siop a'r caffi yn cael ei chynnwys fel mewnbwn i ymwelwyr. Er mae'n bwysig nodi bod pobl leol hefyd yn cyfrannu tuag yr incwm yma, o ran symlrwydd, rydym wedi ychwanegu'r costau i'r ymwelwyr yn unig. Mae rheolwr yr Amgueddfa wedi cadarnhau incwm y siop a'r caffi am 2024 – 2025 a 2025-26. Er fysai yn bosibl defnyddio incwm y siop a'r caffi o 2025-26 a rhagweld beth fyddai'r incwm ar gyfer 2026-27,

roeddem yn teimlo bod bysai defnyddio ffigyrau cadarn dros gyfnod o ddwy flynedd yn rhoi mwy o sicrwydd. Felly, ffigyrau incwm 2024-25 a 2025-26 fydd yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn Nhabl 4, mae costau rhedeg yn gysylltiedig â'r siop a'r caffi felly mae hyn wedi'i dynnu allan o'r cyfanswm er mwyn osgoi tanamcangyfrif y gwerth.

### Tabl 4 – Incwm y Siop a'r Caffi

| Incwm | 2024 – 2025 | 2025-2026 |
|---|---|---|
| Siop a Caffi | £7,743.12 | £7,090.95 |
| Tynnu costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y siop a'r caffi | -£2,387 | -£2,507 |
| Cyfanswm | £5,355.23 | £4,583.95 |
| Cyfanswm am 2 flynedd | **£9,939.18** | |

## 6.4 Pobl Lleol

Fel y trafodwyd, mae ymweld â'r Amgueddfa am ddim i bob unigolyn. Mae'r Amgueddfa hefyd yn cynnal digwyddiadau sydd hefyd am ddim. Fodd bynnag, mae'r Amgueddfa'n derbyn rhoddion a rhai unigolion sy'n cofrestru ar gyfer aelodaeth ffrindiau ac felly'n gwneud cyfraniadau. O gyfrifo'r rhoddion a'r aelodaethau yn 2024-2025 a 2025-2026, mae hyn yn gyfanswm o £10,934.50. Fodd bynnag, defnyddir y rhoddion a'r aelodaethau tuag at gostau rhedeg yr amgueddfa, ac felly teimlwyd na ddylid eu cynnwys fel mewnbwn.

## 6.4 Ysgolion

Er nad oes rhaid i ysgolion dalu am eu hymweliad â'r amgueddfa ac i dderbyn y pecynnau adnoddau, mae athrawon yn treulio eu hamser yn mynd â'r disgyblion i'r amgueddfa. Ar ôl iddynt dderbyn y pecynnau adnoddau o'r amgueddfa, maent yn treulio eu hamser yn mynd trwy'r pecyn ac yn strwythuro eu sesiynau i ddisgyblion er mwyn addysgu plant am hanes morwrol a lleol. Felly, teimlwyd y dylid cynnwys amser athrawon fel mewnbwn. Cyfrifwyd mewnbynnau anariannol athrawon gan ddefnyddio'r ffigur a geir ar Gyrfaoedd Cymru[11] sy'n amlinellu'r cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer athro ysgol gynradd yng Nghymru sef £26 yr awr. Mae Tabl 5 isod yn manylu ar y ffigurau a ddefnyddiwyd.

### Tabl 5 – Mewnbynnau anariannol Athrawon

| | Cyfrifiad | Mewnbwn anariannol |
|---|---|---|

[11] Gyrfaoedd Cymru (2026) Athro Cynradd: Tâl ac oriau. Athro Cynradd | Gyrfa Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 5 o athrawon – Blwyddyn 1 | £26 x 3 hours x 5 athrawon | £390 |
| 5 o athrawon – Blwyddyn 2 | £26 x 3 hours x 5 athrawon | £390 |
| Cyfanswm am 2 flynedd | **£780** | |

Ni nodwyd unrhyw fewnbynnau ariannol ar gyfer disgyblion ac felly ni chawsant eu cynnwys.

## 6.5 Cyfanswm mewnbynnau

Wrth ystyried y costau y trafodir, mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r holl fewnbynnau a'r gwerth ariannol:-

### Tabl 6 – Cyfanswm mewnbynnau a gwerth ariannol

| Rhanddeiliaid | Mewnbwn ariannol Blwyddyn 1 | Mewnbwn ariannol Blwyddyn 2 | Mewnbwn anariannol Blwyddyn 1 | Mewnbwn anariannol Blwyddyn 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa Forwrol Llŷn | £45,803.62 | £48,903.76 | / | / | **£93,897.38** |
| Mantell Gwynedd | £45,558.48 | £0 | / | / | **£45,558.48** |
| Gwirfoddolwyr | / | / | £17,161.15 | £17,863.90 | **£35,025.05** |
| Ymwelwyr | £5,355.23 | £4,583.95 | / | / | **£9,939.18** |
| Pobl Lleol | / | / | / | / | **£0** |
| Athrawon | / | / | £390 | £390 | **£780** |
| **Cyfanswm mewnbynnau â gwerth ariannol** | | | | | **£185,200.09** |

# ASTUDIAETH ACHOS 2 - YMWELIADAU GAN PRYNHAWN DIFYR PWLLHELI

## Cefndir

Mae Prynhawn Difyr yn grŵp cymunedol ym Mhwllheli sydd yn cyfarfod pob wythnos er mwyn cymdeithasu. Mae'r grŵp yn ymweld ag atyniadau gwahanol ar draws Pen Llŷn. Nod y grŵp yw dod a phobl at ei gilydd er mwyn cymdeithasu ag eraill ac i ddysgu a theimlo fel rhan o'r gymuned.

## Ymweld â'r Amgueddfa

Mae Prynhawn Difyr yn ymweld ag Amgueddfa Forwrol Llŷn bob blwyddyn. Ymweliad dwythaf y grŵp oedd y 15/05/2025. Mae rhan fwyaf o'r aelodau wedi bod i'r Amgueddfa sawl gwaith, ond maen nhw'n mwynhau ail ymweld er mwyn atgoffa ei hunain o'r hanes.

Nodwyd cydlynydd y grŵp bod yr Amgueddfa yn hygyrch i'r aelodau - gyda phopeth ar un llawr. Mae'n hawdd i'r aelodau cael mynediad at bopeth yn cynnwys y toiledau. Mae gwybodaeth yn yr arddangosfa yn cael ei arddangos yn glir gyda defnydd da o liwiau sydd yn hawdd i'w ddarllen ar gyfer pob oedran.

Nodwyd yr aelodau bod yr Amgueddfa yn lle braf a cynnes i ymweld yr arddangosfa ac yn lle braf i gael paned a sgwrs.

Un o'r uchafbwyntiau'r aelodau o ymweld yr Amgueddfa yw sgwrsio gyda'r gwirfoddolwyr cyfeillgar. Wrth ymweld â'r arddangosfa a chael sgwrs gyda'r gwirfoddolwyr, mae aelodau yn cael cyfle i sgwrsio am straeon at atgofion. Mae rhan fwyaf o'r aelodau gyda chyswllt â' rewyn sydd wedi adeiladu llong neu wedi teithio oddi ar long yn Ben Llŷn, felly mae'n dod a theimlad o falchder a pherthyn o fewn y gymuned.

Mae ymweliadau i sefydliadau fel Amgueddfa Forwrol Llŷn yn bwysig iawn i aelodau'r grŵp gan ei bod yn cadw'r meddwl i fynd ac yn denu sgwrs wahanol er mwyn cymdeithasu ag eraill.

## DEILLIANNAU

Gwell gwybodaeth am hanes Pen Llŷn
Teimlad o berthyn i'r gymuned
Balchder am ein treftadaeth
Ymweld â sefydliad hygyrch a croesawgar
Annog i bobl gymdeithasu wrth drafod atgofion

## 7.0 Allbynnau, Canlyniadau a Thystiolaeth

Fel y trafodwyd eisoes, prif ffocws yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r effaith gymdeithasol a grëwyd gan Amgueddfa Forwrol Llŷn. Rydym wedi adnabod sawl grŵp o rhanddeiliaid sef gwirfoddolwyr, ymwelwyr, pobl leol ac ysgolion. Yma byddem yn trafod faint o bobl o bob grŵp sydd yn cael ei chynnwys fel allbwn, ac yna trafod y canlyniadau i bob grŵp o rhanddeiliaid. Byddem wedyn yn trafod sut mae'r canlyniadau yn cyd-fynd â thargedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### 7.1 Gwirfoddolwyr

Mae yno nifer o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser i'r Amgueddfa. Gan fod yr Amgueddfa ar agor yn dymhorol yn bennaf, mae nifer o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser trwy weithio ar rota. Mae'r rota yma yn weithredol o Ddydd Mercher i Ddydd Sul o fis Ebrill hyd at ddiwedd mis Hydref. Mae cyfanswm o 30 o wirfoddolwyr yn rhoi ei amser blaen tŷ'r Amgueddfa. Mae yno hefyd wirfoddolwyr sydd yn rhan o grŵp arteffactau ac felly yn gwneud ymchwil ac yn gwneud trefniadau ar gyfer yr arteffactau. Mae yno 7 wirfoddolwyr sydd yn cyfrannu at y gwaith arteffactau. Mewn cyfanswm, mae yno 37 o wirfoddolwyr sydd yn gwirfoddoli yn aml gyda'r Amgueddfa. Rydym wedi derbyn ymatebion gan 22 o wirfoddolwyr trwy'r holiadur sydd yn faint sampl o 59%. Felly, oherwydd bod gen i hyder yn y sampl a'r data, mae 37 o wirfoddolwyr yn cael ei chynnwys yn y map gwerth.

Drwy gynnal grŵp ffocws gyda gwirfoddolwyr yn mynd trwy'r 10 cwestiwn effaith o werth cymdeithasol, defnyddiwyd cwestiynau agored i ofyn i wirfoddolwyr am effeithiau gwirfoddoli yn yr amgueddfa ar eu lles. Defnyddiwyd cwestiynau treiddgar hefyd i gael mwy o fanylion ynghylch yr effeithiau. Fel hyn, gallai gwirfoddolwyr rannu'n rhydd yr hyn oedd yn bwysig iddynt. Y canlyniadau a nodwyd isod oedd y rhai a ystyriwyd bwysicaf i'r gwirfoddolwyr. Nodwyd y rhain i ddechrau yn ystod y grwpiau ffocws. Unwaith y cyrhaeddwyd pwynt dirlawnder lle'r oedd digon o hyder ein bod yn mesur y canlyniadau cywir, lluniwyd damcaniaeth newid i ddeall a darlunio taith y gwirfoddolwyr i gyrraedd pob canlyniad a ddiffiniwyd yn glir, gweler Atodiad 2 am ddamcaniaeth newid y gwirfoddolwyr. Dangoswyd y ddamcaniaeth newid hon i wirfoddolwyr a rheolwr yr amgueddfa i sicrhau bod y canlyniadau cywir wedi'u nodi. Gan y cadarnhawyd bod hyn yn gywir, cynhaliwyd arolwg fel y gellid casglu rhagor o dystiolaeth i nodi faint o wirfoddolwyr a brofodd y newidiadau hyn ac i ba raddau.

Yn yr arolwg, gofynnwyd i wirfoddolwyr a oeddent wedi profi unrhyw newidiadau yn y canlyniadau a nodwyd. Yna gofynnwyd i wirfoddolwyr faint o newid yr oeddent yn teimlo eu bod wedi'i brofi

trwy wirfoddoli yn yr amgueddfa. Roedd gan wirfoddolwyr yr opsiynau o ddewis 'dim newid,' 'ychydig o newid,' 'rhywfaint o newid,' 'cryn dipyn o newid' neu 'llawer o newid' ar gyfer pob canlyniad. Yna cyfrifwyd y pellter a deithiwyd (lefel y newid a brofwyd gan y gwirfoddolwr) trwy'r fformiwleiddiad canlynol:-

## Table 7 – Fformiwla pellter a deithiwyd

| Deilliant | Pobl sy'n profi newid | Pellter a deithiwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Dim newid | 1 | 0 | 0 |
| Ychydig o newid | 1 | 12.5 | 12.5 |
| Rhywfaint o newid | 2 | 37.5 | 75 |
| Cryn dipyn o newid | 7 | 62.5 | 437.5 |
| Llawer o newid | 11 | 87.5 | 962.5 |
| Cyfanswm yr ymatebion = 22 | Cyfanswm nifer y bobl sy'n profi newid = 21 | | 71% |
| % pobl sy'n profi newid cadarnhaol | 95% | | |

Mae Tabl 7 yn dangos bod 21 allan o'r 22 gwirfoddolwr a ymatebodd i'r arolwg wedi profi canlyniad 'mwy o gyfleoedd i gymdeithasu.' Po fwyaf o newid y dywedodd gwirfoddolwyr eu bod yn ei brofi, y mwyaf oedd y pellter a deithiwyd gyda chyfartaledd o 71% o'r pellter a deithiwyd ar draws maint y sampl. Yna defnyddir y ffigur hwn i gyfrifo cyfran o'r gwerth ariannol. Fel yr eglurwyd yn Adran 9, defnyddir y dull angori i gyfrifo gwerth ariannol canlyniadau yn seiliedig ar y pwysigrwydd y mae pobl yr effeithiwyd arnynt yn ei roi ar y canlyniadau a ddiffiniwyd yn dda.

Mae Tabl 8 isod yn dangos yr holl ganlyniadau a nodwyd ar ôl ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Cyfrifwyd nifer y gwirfoddolwyr a brofodd newidiadau cadarnhaol ynghyd â'r pellter a deithiwyd sy'n nodi faint o newid a brofodd y gwirfoddolwyr - po uchaf yw'r ganran, y mwyaf o newid a brofwyd.

## Tabl 8 – Canlyniadau a brofwyd a phellter a deithiwyd ar gyfer gwirfoddolwyr

| Deilliant | Newid cadarnhaol cyffredinol | Pellter a deithiwyd |
|---|---|---|
| Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu | 95% | 54% |
| Dod i adnabod gwirfoddolwyr ac ymwelwyr eraill | 100% | 67% |
| Datblygu yr iaith Gymraeg | 32% | 66% |
| Teimlo'n rhan o dîm | 100% | 63% |

| | | |
|---|---|---|
| Teimlad o berthyn i'r gymuned | 95% | 60% |
| Dysgu sgiliau newydd | 91% | 61% |
| Yn falch o bortreadu hanes | 95% | 71% |
| Hunanhyder gwell | 86% | 49% |
| Cyfle cynyddol i ddiogelu hanes Nefyn a Phen Llŷn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | 95% | 76% |

Fel y gwelir yn y theori newid, mae rhai canlyniadau canolradd yn arwain at y canlyniadau pendant a hirdymor. Mae'r canlyniadau pendant a nodwyd ar gyfer gwirfoddolwyr wedi'u hamlygu yn Nhabl 8 a ffocws yr adran hon yw trafod y canlyniadau pendant yn fanylach:-

## Deilliannau

### Deilliant 1: Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl




Daeth yn glir iawn wrth wrando ar sylwadau'r gwirfoddolwyr yn y grŵp ffocws bod cadw hanes Pen Llŷn a'r hanes Morwrol yn bwysig iawn iddynt. Roedd llawer o wirfoddolwyr yn trafod y balchder roeddynt yn teimlo eu bod nhw yn cyfrannu tuag at gadw'r hanes fynd wrth drafod hanesion teuluol gydag ymwelwyr a phobl leol. Yn ôl ymchwil gan Rowley a Fullwood (2018[12]), y cymhelliant mwyaf i wirfoddolwyr yn y sector treftadaeth yw bod gan y nhw diddordeb o mewn hanes. Gwelwyd hyn yn yr ymatebion gan wirfoddolwyr yr Amgueddfa hefyd.

Roedd gwirfoddolwyr yn sôn eu bod yn mwynhau trafod hanes yn yr ardal a thrafod cysylltiadau teuluol. Roedd un gwirfoddolwr yn benodol yn gwneud coed teulu ar gyfer ymwelwyr a phobl leol fel bod pobl medru gweld ei chysylltiadau hynafiaid. Trafodwyd un gwirfoddolwr am achos lle'r oedd ymwelwr wedi dod i'r Amgueddfa ac wedi bod yn mynd trwy hen luniau ar y cyfrifiadur ac wedi dod ar draws llun o'i ewythr. Roedd y gwirfoddolwr yn sôn bod yr ymwelwr gyda dagrau yn ei llygaid am

[12] Rowley, J.E. and Fullwood, W.R. (2018) 'Promoting volunteer engagement in the heritage sector.' *Journal of Cultural Heritage Management and Sustainable Development*, vol. 8, no 3, pp. 362-371. [Promoting volunteer engagement.pdf]

ei fod yn hapus ei bod wedi gweld cyswllt. Roedd y gwirfoddolwr yn sôn bod hyn yn creu teimlad o falchder mawr iddynt.

Cafwyd nifer o sylwadau am hyn gan y gwirfoddolwyr – er enghraifft:

---

**"Teimlo cyfrifoldeb i warchod hanes lleol."**

**"Mae'n adnodd mor bwysig i'r ardal a rhaid diogelu nad ydy hanes yr ardal yn mynd ar goll. Rhaid sicrhau bo pobl ddieithr sy'n dod i fyw yma'n ymwybodol eu bod yn ymuno a chymuned arbennig."**

**"Credaf bod cadw hanes Nefyn a'r ardal yn fyw ac ar gael yn Nefyn yn bwysig i'r rhai ddaw ar ein hol."**

**"Y cyfle i fod yn rhan o dim o wirfoddolwyr sydd yn gwarchod hanes Nefyn a Phen Llyn."**

**"I come from a seafaring family. Their history is important. My roots are in Nefyn. The next generation need to be taught about their background and inheritance."**

**"I believe that it is important to retain the history of Nefyn and the area in Nefyn for future generations. I feel that the museum is a fantastic asset to local education and for people from further afield."**

---

O ganlyniad i'r arolwg (Gweler Atodiad 3 am yr arolwg), dywedodd 21 allan o'r 22 gwirfoddolwr a ymatebodd eu bod yn teimlo'n falch o gadw'r hanes lleol. Mae hyn yn cyfateb i 95% o faint y sampl. Felly, cafodd 35 allan o 37 o wirfoddolwyr eu cynnwys yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Y pellter a deithiwyd a nodwyd ar gyfer y canlyniad hwn oedd 71%. Gan fod hwn wedi'i nodi fel y canlyniad pwysicaf i wirfoddolwyr, nodwyd hwn fel y canlyniad angor. Felly, dim ond 71% o werth ariannol y canlyniad hwn a hawliwyd ar y map gwerth.

## Deilliant 2: Hunan hyder gwell




O’r gwirfoddolwyr a ymatebodd i’r arolwg, mae 95% dros 55 oed. Yr ystod oedran 61-70 oed yw'r oedran trosiannol o symud o fyd gwaith i gyfnod newydd yn eu bywyd. Mae'r cyfnod hwn o newid yn heriol i lawer o bobl a gall fod yn anodd i rai. Roedd llawer o wirfoddolwyr yn rhannu eu bod nhw yn edrych ym mlaen i ddod i'r Amgueddfa i wirfoddoli a bod gwirfoddoli yn rhan o’u trefn arferol. Roedd rhai gwirfoddolwyr, yn enwedig rhai roedd yn trefnu’r arteffactau yn sôn eu bod nhw yn cael cyfleodd i fynd ar wahanol hyfforddiant yn cynnwys sut i labelu arteffactau a sut i ddefnyddio technoleg. Roedd rhai gwirfoddolwyr yn sôn eu bod nhw yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd ac mae hyn yn dilyn i hunanhyder gwell. Trafodwyd bod rhoi yn nol i’r gymuned yn gwneud iddyn nhw deimlo yn dda am eu hunain. Dyma rai o’r sylwadau a wnaed sy’n crynhoi hyn:-

___

**"Rwy'n rhan o dîm da sy'n gwirfoddoli gyda Llanw Llyn ac rwyf wedi dysgu sgiliau newydd, ond mae'r Amgueddfa'n golygu llawer mwy o amrywiaeth yn y gwaith gwirfoddol rwy'n ei wneud - delio â stoc ar gyfer y siop, cynllunio labeli, meddwl am grefftau a phethau y gallwn eu creu yn ogystal â rhedeg elusen fach. Mae gwaith apwyntiadau a chyfrifoldeb am gyflogi ac ati yn rhan o hynny.”**

**“Mae'n braf gwirfoddoli mewn awyrgylch Cymreig yn yr amgueddfa a dod i ddysgu sgiliau newydd a dysgu mwy am hanes a morwrol a diwylliant yr ardal.”**

**"Rwyf bob amser yn edrych ymlaen at fy 'nhro' i wirfoddoli."**

___

O ganlyniad i'r arolwg, roedd gan 86% o'r gwirfoddolwyr a ymatebodd well hunanhyder. Felly, cynhwyswyd 32 o wirfoddolwyr yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Y pellter a deithiwyd a gyfrifwyd oedd 49% (lefel y newid a brofwyd gan y gwirfoddolwr, po uchaf y rhif, y mwyaf yw'r effaith ar y gwirfoddolwr) a chafodd ei raddio'n 6/10 o ran pwysigrwydd ymhlith gwirfoddolwyr.

### Deilliant 3: Ymdeimlad cynyddol o berthyn i’r gymuned




Yn ystod y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, daeth yn amlwg yn gynnar faint yr oedd gwirfoddoli yn yr Amgueddfa yn ei olygu i’r gwirfoddolwyr. Nododd llawer o’r gwirfoddolwyr eu bod yn mwynhau cymdeithasu gydag ymwelwyr, pobl leol a gwirfoddolwyr eraill sydd yn arwain at fwy o ymdeimlad o gymuned. Roedd llawer o wirfoddolwyr yn dweud ei bod nhw yn teimlo fel tîm ac yn helpu eu gilydd. Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (2025[13]) hefyd yn rhestru 'ymdeimlad o gysylltiad’ ag eraill yn y gymuned - mae gwirfoddoli yn eich cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai o'ch cwmpas ac mae'n arbennig o fuddiol i'ch cymuned leol ac ymdeimlad o berthyn' fel un o brif fanteision gwirfoddoli.

---

Elfen arall roedd wedi dod allan yn gryf oedd bod cymdeithasu yn yr iaith Gymraeg yn bwysig i’r gwirfoddolwyr. Er bod Nefyn yn bentref mewn ardal wledig, mae hefyd yn bentref ôl-ddiwydiannol yn dilyn cau’r chwareli ithfaen yn yr ardal yn ystod y ganrif ddiwethaf. Yn hanesyddol, roedd Nefyn yn bentref Cymraeg, ond fel yng ngweddill Cymru, gwelwyd dirywiad sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg dros y can mlynedd ddiwethaf. Mae’r Adroddiad Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021[14]) gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2022 yn amlygu’r prif ffactorau am y dirywiad.

Dwy brif ffactor sy’n nodweddu’r dirywiad mewn defnydd o’r Gymraeg yn gymunedol yw dad-boblogi ardaloedd gwledig ochr yn ochr â mewnlifiad o bobl ddi-gymraeg; a throsglwyddo’r Gymraeg i’r genhedlaeth nesaf.

---

[13] Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (2025) ‘Benefits of volunteering.’ https://www.royalvoluntaryservice.org.uk/volunteering/why-volunteer/benefits-of-volunteering/

[14] Llywodraeth Cymru (2021) ‘Adroddiad Y Gymraeg yng Nghymru.’ https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671610676/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.pdf

Roedd sawl gwirfoddolwr yn trafod eu bod nhw yn trio ysgogi ymwelwyr a dysgwyr i siarad Cymraeg wrth ymweld â'r Amgueddfa. Roedd rhai gwirfoddolwyr eu hunain yn dysgu Cymraeg ac roedd yn esbonio bod gwirfoddoli yn yr Amgueddfa yn eu helpu i ddatblygu'r iaith.

Cafwyd nifer o sylwadau am hyn gan y gwirfoddolwyr – er enghraifft:

---

**"Er mwyn ddod i adnabod bobol sy'n gwirfoddoli a dysgu am hanes yr Ardal er mwyn siarad gyda'r ymwelwyr."**

**"I roi cymorth i gadw y Amgueddfa i gadw yn agored. Hoffi cyfarfod a phobol a cael sgwrs am y lleoliad a'r ardal."**

**"Siawns dda i gymdeithasu trwy wneud rhywbeth sy'n cyfrannu i'r gymdeithas leol."**

**"Er mwyn rhoi rhywbeth yn nol i'r gymuned leol."**

**"I hyrwyddo'r treftadaeth a'r iaith."**

**"Cymdeithasu a diddordeb mewn hanes lleol."**

**"Gwneud ffrindiau a chyfle i groesawu ymwelwyr i Ben Llŷn."**

**"Mae'n braf gwirfoddoli mewn awyrgylch Gymreig yn yr amgueddfa a dod i ddysgu mwy am hanes a morwrol a diwylliant yr ardal."**

**"Symudais i Ben Llýn o Gaeredin deuddeg mlynedd n'ôl. Mae gwirfoddoli wedi fy helpu i ddod i adnabod bobol lleol, gwneud ffrindiau a chael ddiddordeb."**

---

Dangosodd canlyniadau'r arolwg (gweler Atodiad 3) fod 95% o'r gwirfoddolwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi datgan bod gwirfoddoli yn yr Amgueddfa yn creu teimlad o berthyn i gymuned yn ogystal â chyfrannu at wneud rhywbeth gwerthfawr yn y gymuned a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas. Felly, cynhwyswyd 35 o wirfoddolwyr yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Y pellter a deithiwyd a gyfrifwyd oedd 60% (h.y. lefel y newid y mae'r gwirfoddolwyr yn ei brofi trwy wirfoddoli yn yr Amgueddfa) a chafodd ei raddio'n 6.6/10 o ran pwysigrwydd ymhlith gwirfoddolwyr.

## 7.2 Ymwelwyr

O ran gofynion yr Amgueddfa, dim ond niferoedd o bobl sydd yn ymweld â'r Amgueddfa yn gyffredinol mae'r pwyllgor yn ei hel. Mae 'cliciwr' yn cael ei defnyddio bob tro mae unigolyn yn ymweld â'r Amgueddfa. Roedd cyfanswm o 4,211 o bobl wedi ymweld â'r Amgueddfa rhwng Ebrill 2025 a Thachwedd 2025. Mae'n bosibl bod yr un unigolion wedi ymweld â'r Amgueddfa sawl gwaith. Gan ein bod wedi darganfod gwahaniaethau o fewn deilliannau rhwng ymwelwyr a phobl leol, roeddem wedi gofyn i'r rheolwr i amcangyfrif canran o'r cyfanswm ymwelwyr sydd yn bobl leol ac yna tynnu hyn o'r cyfanswm. Felly, roedd wedi dadansoddi bod 30% yn bobl leol ac felly roedd 2,948 o bobl yn ymwelwyr ac 1,263 yn bobl leol rhwng Ebrill 2025 a Thachwedd 2025. Gan fod y dadansoddiad yn mesur 2 flynedd, mae hyn yn cynnwys 5,896 o ymwelwyr dros y 2 flynedd.

Roedd nifer yr ymatebion i'r holiadur yn isel ar gyfer ymwelwyr. Dechreuodd y dadansoddiad yn ystod yr Hydref felly roedd nifer yr ymwelwyr yn isel oherwydd yr adeg o'r flwyddyn. Ymddengys bod nifer o ymwelwyr yn dod yn fwy tuag at yr Haf. Gan mai dim ond 31 o holiaduron a dderbyniwyd, penderfynwyd nad oedd maint y sampl hwn yn ddigonol i gynrychioli cyfanswm maint y boblogaeth ac roedd risg uchel o or-hawlio. Felly, penderfynwyd y byddai maint y sampl hwn yn cynrychioli 310 o ymwelwyr sydd wedi'u cynnwys yn y map gwerth. Teimlwyd y byddai lluosi maint y sampl â 10 yn ffigur teg i'w gynnwys yn y map gwerth.

Mae Tabl 9 isod yn dangos yr holl ganlyniadau a nodwyd ar ôl ymgysylltu ag ymwelwyr. Cyfrifwyd nifer yr ymwelwyr a brofodd newidiadau cadarnhaol ynghyd â'r pellter a deithiwyd sy'n nodi faint o newid a brofodd yr ymwelwyr - po uchaf y ganran, y mwyaf o newid a brofwyd.

### Tabl 9 – Canlyniadau a brofwyd a phellter a deithiwyd i ymwelwyr

| Deilliant | Newid cadarnhaol cyffredinol | Pellter a deithiwyd |
|---|---|---|
| Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad â hanes | 100% | 63% |
| Datblygu'r iaith Gymraeg | 48% | 56% |
| Cael gwybodaeth am bethau eraill sydd ar gael yn yr ardal | 77% | 49% |
| Cyfleoedd i gymdeithasu | 81% | 63% |

Mae'r canlyniadau canolradd pwysicaf a mwyaf perthnasol a nodwyd ar gyfer ymwelwyr wedi'u hamlygu yn Nhabl 9 a ffocws yr adran hon yw trafod y ddau ganlyniad hyn yn fanylach:-

### Deilliant 4: Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Pen Llŷn




Wrth edrych ar y gadwyn o newid uchod, y canlyniad a ddiffiniwyd yn glir a ystyriwyd fel yr un pwysicaf gan ymwelwyr oedd y cyfle i ddysgu ac ymgysylltu â hanes yr ardal. Gan fod yr Amgueddfa wedi derbyn fuddsoddiad i adnewyddu'r adeilad, teimlai ymwelwyr fod awyrgylch cynnes a chyfeillgar yn yr Amgueddfa. Dywedodd llawer o ymwelwyr fod yr Amgueddfa yn ddeniadol a bod llawer o wybodaeth a hanes ar gael fel y gallent ddod i adnabod yr ardal. Dywedodd llawer o ymwelwyr yn y broses ymgysylltu eu bod wedi'u swyno i weld gwahanol arteffactau ac i ddarllen am wahanol ddigwyddiadau hanesyddol. Roedd rhai yn hollol newydd i'r ardal, ond roedd gan rai gysylltiadau teuluol ac roeddent â diddordeb mewn dysgu mwy am y cysylltiadau hyn. Roedd llawer o ymwelwyr wedi'u swyno i weld cynhyrchion lleol ar gael yn y siop ac felly nid yn unig yn dod i adnabod yr ardal a'r iaith ond maent hefyd yn cael teimlad o'r diwylliant.

Dyma rhai o sylwadau sydd yn dangos hyn:-

---

**"Lovely museum - quaint and unique - like Nefyn itself."**

**"A credit to the neighbourhood, excellent for visitors to be able to gain information/history of the area."**

**"Amazing little museum. A warm welcome and very interesting."**

**"Croeso cynnes a rhywbeth newydd i weld o hyd."**

---

O ganlyniad i'r arolwg, dywedodd 100% o ymwelwyr fod ganddynt well gwybodaeth ac ymgysylltiad â hanes a diwylliant Nefyn a Phen Llŷn, felly cafodd 310 o ymwelwyr eu cynnwys yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Y pellter a deithiwyd a gyfrifwyd ar gyfer y canlyniad hwn oedd 63% (lefel y newid a brofwyd gan y bobl, po uchaf yw'r nifer, y mwyaf yw'r effaith ar ymwelwyr). Gan fod hwn

wedi'i nodi fel y canlyniad pwysicaf gan ymwelwyr (8.4/10), cyfrifwyd y canlyniad hwn fel y gwerth angor lle hawliwyd 63% o werth ariannol y canlyniad hwn yn y map gwerth.

### Deilliant 5: Cyfle i siarad a chymdeithasu gydag ymwelwyr eraill a phobl leol




Deilliant arall cryf gan ymwelwyr oedd cyfleodd i gymdeithasu. Roedd sawl ymwelwr yn trafod bod gwirfoddolwyr yn creu awyrgylch cyfeillgar a'u bod yn hoffi cael sgwrs gyffredinol. Wrth gysylltu gyda rhanddeiliaid, roedd llawer o ymwelwyr yn hoffi cael sgwrs gyda'r gwirfoddolwyr am ddigwyddiadau hanesyddol a thrafod cysylltiadau teuluol. Roedd sawl ymwelwr wedi sôn eu bod gyda diddordeb mewn hanes gyda sawl un yn cysylltu gyda'r digwyddiadau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd rhai ymwelwyr gyda diddordeb i ddysgu mwy am yr iaith Gymraeg, felly roedd rhai ymwelwyr yn sôn ei bod yn trafod gyda phobl leol neu gyda gwirfoddolwyr am eirfa Cymraeg er mwyn datblygu mwy o ddealltwriaeth.

Dyma rhai o sylwadau gan ymwelwyr sydd yn dangos hyn:-

**"Wonderful place. Friendly staff. Good Bara Brith. Had a pilgrim stamp index."**

**"It is a wonderful informative place, with such friendly staff. Keep doing what you're doing."**

**"I have only been able to visit once but that's because I live in Australia. I have a strong connection with Nefyn and its maritime history and my visit to the museum was a highlight of my UK trip. The people were welcoming; I bought souvenirs and had a brilliant experience there."**

---

Mae'r gwaith adnewyddu'r adeilad hefyd wedi cyfrannu at deimlad cynnes a chyfeillgar yr Amgueddfa. Fel mae'n dangos yn Ffigwr 15 isod, gofynnwyd i ymwelwyr os oedd y gwaith allanol oedd wedi cael ei gwneud yn yr Amgueddfa yn gwneud o edrych mwy deniadol, ac roedd 84% yn cytuno neu yn cytuno yn gryf gyda hyn.

*Ffigur 15 – Gwaith allannol yn gwneud yr Amgueddfa edrych yn fwy deiniadol*




Yn ogystal, fel mae'n dangos yn Ffigwr 16 isod, gofynnwyd i'r ymwelwyr os oedd y gwaith adnewyddu mewnol oedd wedi cael ei gwneud yn gwneud yr Amgueddfa deimlo fwy ffres, gyffyrddus, a hygyrch ac roedd 81% yn cytuno neu yn cytuno yn gryf gyda hyn.

***Ffigur 16 – Gwaith adnewyddu mewnol yn gwneud yr Amgueddfa yn fwy ffres, gyffyrddus a hygyrch***



Roedd sawl ymwelwr yn trafod ac yn nodi bod yr awyrgylch cyfeillgar a'r cyfle i gael sgwrs gyda phobl yn rhai o’r prif resymau pam maen nhw’n hoffi dod yn nol i ymweld yr Amgueddfa eto yn y dyfodol.

Dangosodd canlyniadau yr arolwg i ymwelwyr fod 81% o ymwelwyr yn teimlo bod profiad yn yr Amgueddfa wedi rhoi cyfle iddynt gymdeithasu ag eraill, felly cafodd 251 o ymwelwyr eu cynnwys yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Cyfrifwyd y pellter a deithiwyd yn 63% ar gyfer y canlyniad hwn (lefel y newid a brofwyd gan y bobl, po uchaf y rhif, y mwyaf yw effaith yr ymwelwyr) a chafodd ei raddio'n 7.5 gan ymwelwyr o ran pwysigrwydd.

## 7.3 Pobl Lleol

Fel esboniwyd, o ran gofynion yr Amgueddfa, dim ond niferoedd o bobl sydd yn ymweld â’r Amgueddfa yn gyffredinol mae’r pwyllgor yn ei hel. Roedd cyfanswm o 4,211 o bobl wedi ymweld â’r Amgueddfa rhwng Ebrill 2025 a Thachwedd 2025. Mae’n bosibl bod yr un unigolion wedi ymweld â’r Amgueddfa sawl gwaith. Gan ein bod wedi darganfod gwahaniaethau o fewn deilliannau rhwng ymwelwyr a phobl leol, roeddem wedi gofyn i’r rheolwr i amcangyfrif canran o’r cyfanswm ymwelwyr sydd yn bobl leol ac yna tynnu hyn o’r cyfanswm. Felly, roedd wedi dadansoddi bod 30% yn bobl leol ac felly roedd 2,948 o bobl yn ymwelwyr ac 1,263 yn bobl leol rhwng Ebrill 2025 a Thachwedd 2025. Mae’n debygol byddai'r un bobl leol yn ymweld â’r Amgueddfa i’r ail flwyddyn, felly mae’r cyfanswm o bobl leol yn aros yn 1,263 am y ddwy flynedd.

Roedd nifer o ymatebion i'r arolwg yn isel ar gyfer pobl leol. Roedd y gwaith dadansoddi wedi dechrau yn ystod yr Hydref felly roedd nifer y digwyddiadau yn isel oherwydd yr adeg o'r flwyddyn. Trefnir nifer o ddigwyddiadau yn yr Amgueddfa yn ystod y Gwanwyn a'r Haf. Gan mai dim ond 35 o holiaduron a dderbyniwyd, penderfynwyd lluosi maint y sampl hwn â 10 i gyfrifo faint o bobl leol sydd wedi'u cynnwys yn y map gwerth. Unwaith eto, mae hyn er mwyn sicrhau nad ydym yn gor-hawlio. Felly, mae 350 o bobl leol wedi'u cynnwys yn y map gwerth. Llwyddon ni i gyfweld â 26 o unigolion mewn digwyddiadau ac aelodau o grwpiau lleol fel Merched y Wawr, Ffermwyr Ifanc, a Phrynhawn Difyr Pwllheli. Felly, roedd gennym ddigon o ddata ansoddol i gefnogi ein rhagdybiaethau o'r arolygon i gynnwys 350 o bobl leol o fewn y map gwerth.

Mae Tabl 10 isod yn dangos yr holl ganlyniadau a nodwyd ar ôl ymgysylltu â phobl leol. Cyfrifwyd nifer y bobl leol a brofodd newidiadau cadarnhaol ynghyd â'r pellter a deithiwyd sy'n dangos faint o newid a brofodd yr ymwelwyr - po uchaf yw'r ganran, y mwyaf o newid a brofwyd.

## Tabl 10 – Canlyniadau a brofwyd a'r pellter a deithiwyd i bobl leol

| Deilliant | Newid cadarnhaol cyffredinol | Pellter a deithiwyd |
|---|---|---|
| Dysgu mwy am ein hanes a'n treftadaeth leol | 91% | 58% |
| Cyfle i fyfyrio ar straeon personol a'u rhannu ag eraill | 69% | 58% |
| Cymhelliant i gadw'r hanes yn fyw | 86% | 59% |
| Dod i adnabod gwirfoddolwyr a phobl leol eraill | 80% | 57% |
| Cyfle i gymdeithasu | 91% | 54% |
| Siarad a datblygu'r iaith Gymraeg | 40% | 50% |
| Teimlad o falchder dros ein treftadaeth | 83% | 57% |
| Teimlad o berthyn i gymuned | 66% | 60% |

Mae'r canlyniadau a ddiffiniwyd yn dda a nodwyd ar gyfer gwirfoddolwyr wedi'u hamlygu yn Nhabl 10 a ffocws yr adran hon yw trafod y canlyniadau a ddiffiniwyd yn fanylach:-

### Deilliant 6: Teimlad cynyddol o falchder am ein treftadaeth




Roedd yn glir wrth drafod gyda rhai o’r trigolion a phobl leol bod nhw yn falch o allu cefnogi achosion Cymraeg lleol. Roedd yn golygu llawer i rai trigolion bod adeilad yr Amgueddfa yn cael defnydd i gynnal digwyddiadau ac arddangos hanes lleol. Wrth gynnal sgyrsiau gyda thrigolion o fewn digwyddiad bore coffi, roedd rhai unigolion yn sôn sut bysai hanes ei theuluoedd nhw yn cael ei anghofio amdano os nad byddai’r Amgueddfa yn ei arddangos. Roedd sawl trigolyn yn sôn eu bod nhw yn argymell i’w teuluoedd, plant a phobl ifanc ac ymwelwyr i ymweld â’r Amgueddfa fel bod nhw yn dod i ddysgu mwy am hanes, iaith, cysylltiadau teuluol a diwylliant yr ardal leol. Mae grwpiau lleol megis Merched y Wawr, Ffermwyr ifanc, a Phrynhawn Difyr Pwllheli yn ymweld â’r Amgueddfa. Wrth drafod gyda rhai o’r aelodau, maen nhw’n sôn bod edrych ar yr hanes yn codi ei ysbryd ac yn ffordd o ddechrau sgwrs rhwng aelodau. Er enghraifft, roedd arweinydd Prynhawn Difyr wedi

mynegi bod rhai o’r aelodau yn adnabod rhewyn oedd wedi adeiladu cwch neu adnabod rhewyn oedd wedi teithio i'r America ac roedd hyn yn ffordd o ddenu sgwrs wahanol. Roeddem yn teimlo bod trigolion ac aelodau grwpiau lleol yn teimlo balchder mawr fod yr hanes yn cael ei arddangos ac ar gael i bawb. Dyma rhai o ddyfyniadau o’r holiadur sydd yn arddangos hyn:-

---

**“Mae'n le difyr a chyfeillgar yn llawn o wybodaeth leol diddorol.”**

**“Mae hanes lleol yn bwysig i mi ac mae'r Amgueddfa yn darparu cyfleoedd i ddysgu mwy am hynny.”**

**“Rwyf wedi ymweld a'r Amgueddfa ers iddo agor. Wrth fy modd hefo'r croeso cynnes dwi'n gael bob amser.”**

**“Fel aelod o’r Clwb Ffermwyr Ifanc, rwy’n mwynhau ymwneud gyda’r Amgueddfa Forwrol Llŷn gan ei bod yn fy nghadw’n gysylltiedig â’n hetifeddiaeth leol ac yn cefnogi lle sy’n dathlu hanesion ein cymuned arfordirol.”**

**“Hoffi’r hanes ac mae’n bwysig i’r gymuned.”**

---

Wrth fynychu darlith hanesyddol, roedd unigolion yn trafod eu bod gyda diddordeb mawr o fewn hanes ac yn benodol am hanes Morwrol a chychod. Roedd unigolion yn y ddarlith yn hoffi clywed straeon teuluoedd yn yr hen amser sydd yn dilyn i’r unigolion teimlo balchder am ei threftadaeth.

O ganlyniad i'r arolwg, teimlai 83% o bobl leol gynnydd mewn balchder at eu treftadaeth, felly cafodd 291 o bobl leol eu cynnwys yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Cyfrifwyd y pellter a deithiwyd yn 57% (lefel y newid a brofwyd gan y bobl leol, po uchaf yw'r rhif, y mwyaf yw'r effaith ar bobl leol). Gan fod y canlyniad hwn wedi'i nodi fel yr un pwysicaf ymhlith pobl leol (7/10), cyfrifwyd y canlyniad hwn fel angor ac felly hawliwyd 57% o werth ariannol y canlyniad hwn yn y map gwerth.

## Deilliant 7: Ymdeimlad cynyddol o berthyn i’r gymuned




Deilliant arall oedd wedi cael ei adnabod yn gryf gyda phobl leol yw ymdeimlad o berthyn i’r gymuned. Wrth drafod gyda phobl leol o fewn digwyddiadau fel y bore coffi roedd wedi cael ei drefnu i hel pres i Macmillan, roedd unigolion yn trafod bod nhw’n hoffi dod i'r Amgueddfa pan mae’r digwyddiadau yma ym mlaen. Roeddent yn sôn eu bod yn hoffi cefnogi’r Amgueddfa ac achosion da. Roedd nhw hefyd yn trafod bod mynychu’r digwyddiadau yn ffordd dda o gymdeithasu gydag eraill. Roedd dau unigolyn yn rhannu eu bod yn byw ben ei hunain yn y pentref ac maen nhw’n falch o fedru mynychu digwyddiadau lleol er mwyn cael cwmni a chael cyfle i gymdeithasu. Roedd unigolion yn y digwyddiad Macmillan yn sôn bod ymdeimlad cartrefol o fewn yr Amgueddfa gan fod hanes pobl leol o gwmpas a bod llawer o bobl sydd yn mynychu’r digwyddiadau yn siarad Cymraeg. Roedd pwyslais cryf iawn o hybu’r iaith Gymraeg o fewn y digwyddiadau a hefyd pan mae ymwelwyr yn dod i'r Amgueddfa.

Wrth gymharu gydag ymchwil Holden (2004) (o fewn adroddiad Bollo, 2013) am werth diwylliannol, yn dilyn adborth gan bobl leol, maen nhw’n teimlo bod Amgueddfa Forwrol Llŷn gyda chydbwysedd rhwng dangos gwerth cynhenid, offerynnol a sefydliadol gan eu bod yn ffocysu ar bortreadu hanes pwysig yr ardal leol ond hefyd yn hybu twristiaeth ac i bobl yr ardal ddod at ei gilydd i ddathlu ei ddiwylliant.

Mae rhai o’r sylwadau yma gan pobl leol yn crynhoi hyn:-

---

**” Mae AFLL yn atyniad pwysig iawn ym Mhen Llyn. Mae'n tynnu ymwelwyr sy'n elwa o'u gwariant yn y bwytai/gwestai/siopau lleol. Hybu'r economi leol. Diogelu i'r oesoedd a ddél y hanes a fu. Hybu'r iaith Gymraeg.”**

**“Mae tim da iawn yn rhedeg yr amgueddfa sy'n galonogol iawn. Gwneir gwaith ardderchog gan y grwp arteffactau, Mae'r digwyddiadau yn allweddol i ddenu pobl drwy'r drws. Gobeithio y gellir parhau i ddenu plant i mewn i'r amgueddfa ac ennyn eu diddordeb. Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr yn amhrisiadwy.”**

**“Cadw y gymuned i fynd.”**

**“Mae hanes lleol yn bwysig I mi ac mae'r Amgueddfa yn darparu cyfleoedd i ddysgu mwy am hynny. Dw i hefyd yn mwynhau cymdeithasu mewn digwyddiadau megis boreau coffi ac yn ddiweddar pnawn ardderchog efo Mair Tomos Ifans yn canu carolau Plygain.”**

---

Mae clybiau hefyd wedi bod yn cyfarfod yn yr Amgueddfa fel y Clwb Pwytho sydd rhedeg bob yn ail Ddydd Sadwrn. Roedd llawer o unigolion sydd yn rhan o’r clwb yn trafod bod y clwb yn ffordd iddynt ymlacio a chymdeithasu gydag eraill sydd hefyd yn dilyn i'r deilliant o ymdeimlad cynyddol o berthyn i’r gymuned.

O ganlyniad i'r arolwg, teimlai 66% o bobl leol gynnydd yn eu perthynas â chymuned, felly cafodd 231 o bobl leol eu cynnwys yn y map gwerth ar gyfer y canlyniad hwn. Cyfrifwyd y pellter a deithiwyd ar 60% (lefel y newid a brofwyd gan bobl leol, po uchaf y rhif, y mwyaf yw'r effaith ar bobl leol) a chafodd ei raddio'n 6.8/10 o ran pwysigrwydd gan bobl leol.

Wrth drafod gyda phobl leol am y math o bethau bysent yn hoffi gweld i wella’r Amgueddfa, y ddau beth mwyaf amlwg oedd bod yr Amgueddfa yn medru bod yn oer yn ystod y gaeaf gan fod y system wresogi heb fod yn gweithio. Roeddynt hefyd yn sôn bod y goleuadau yn yr Amgueddfa yn amharu ar ansawdd y sgrin pan mae digwyddiadau yn mlaen. Felly, gan fod y system wresogi a'r goleuadau wedi cael ei adnewyddu trwy’r grant, roedd pobl leol yn gweld y bydd o hyn a bod mwy o ddigwyddiadau medru digwydd. Mae hyn yn enwedig yn wir ar gyfer y Clwb Pwytho gan roedd nifer o aelodau yn sôn bydd ganddynt fwy o capasati i gael mwy o aelodau i ymuno’r grŵp gan fod ansawdd y gwres a’r goleuadau yn well yn yr Amgueddfa. Fel mae’n dangos yn Ffigwr 17 isod, gofynnwyd i bobl leol os mae adnewyddu’r system wresogi wedi gwneud nhw deimlo mwy cyffyrddus yn yr Amgueddfa, ac roedd 57% yn cytuno neu yn cytuno yn gryf gyda hyn.

*Ffigur 17 – Pobl Lleol – Adnewyddu'r system gwresogi*




Yn ogystal, gofynnwyd i bobl leol os oedd uwchraddio'r goleuadau yn gwella yn yr Amgueddfa, ac roedd 52% yn cytuno neu yn cytuno yn gryf gyda hyn fel y gwelir yn Ffigwr 18 isod:-

*Ffigur 18 – Pobl Lleol – Adnewyddu'r goleuadau*



## 7.4 Ysgolion

Mae nifer o ysgolion lleol wedi bod yn ymweld gyda'r Amgueddfa dros y blynyddoedd. Yn ystod 2025, derbyniwyd yr Amgueddfa ymweliadau gan ddisgyblion mewn gwahanol oedrannau yn Ysgol Nefyn yn ogystal ag Ysgol Tudweiliog. Dyma ddadansoddiad o'r niferoedd isod:-

- 3 Mehefin 2025 – Ysgol Tudweiliog –17 o blant
- 22 Medi 2025- Ysgol Nefyn Blwyddyn 3 – 25 o blant
- 23 Medi 2025- Ysgol Nefyn Blwyddyn 4- 20 o blant
- 20 Hydref 2025- Ysgol Nefyn Blwyddyn 5 a 6 – 18 o blant

Roedd hefyd digwyddiad o'r enw 'Perthyn i'r Porthau' wedi cymryd lle ble roedd disgyblion Ysgol Nefyn ac Ysgol Pentreuchaf wedi dod at ei gilydd i ddysgu enwau porthau Pen Llŷn, ac roedd hyn yn cynnwys llysenwau roedd neiniau, teidiau ac aelodau teulu eraill wedi rhoi. Gan ddefnyddio'r enwau hyn, roedd y disgyblion wedi cydweithio â'r cerddor Cymreig Gwyneth Glyn yn yr Amgueddfa ac wedi ysgrifennu cân amdanyn nhw.

O ran y niferoedd a gynhwyswyd yn y dadansoddiad hwn, roedd 80 o ddisgyblion wedi ymweld â'r Amgueddfa yn 2025, felly roedd 80 arall wedi'u hychwanegu at ail flwyddyn y dadansoddiad sy'n dod â'r cyfanswm i 160 o ddisgyblion. Derbyniwyd 16 holiadur gan ddisgyblion yn y flwyddyn gyntaf, sef maint sampl o 20%. Mae hyn yn rhoi hyder inni allosod canfyddiadau ar gyfer 2 flynedd o ddisgyblion ac felly cynnwys 100% o ddisgyblion yn y map gwerth, sef 160 o ddisgyblion. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd hefyd yn profi ac yn rhoi hyder yn ein barnau.

Roedd athrawon hefyd wedi dod i ymweld â'r Amgueddfa gyda'r disgyblion o'r ysgolion. Roeddent hefyd wedi derbyn pecyn gwaith gan y gwirfoddolwyr er mwyn parhau i edrych ar straeon a digwyddiadau lleol yn yr ystafell ddosbarth. Roedd 5 athro wedi ymweld ac wedi derbyn y pecyn gwaith yn 2025, felly mae 5 arall wedi'u hychwanegu ar gyfer ail flwyddyn y dadansoddiad. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 3 athro a derbyniwyd 2 holiadur. Felly, rhoddodd hyn sicrwydd inni gynnwys 100% o'r athrawon yn y map gwerth sef cyfanswm o 10 athro.

Mae Tabl 11 a 12 isod yn dangos yr holl ganlyniadau a nodwyd ar ôl ymgysylltu â disgyblion ac athrawon. Cyfrifwyd nifer y disgyblion ac athrawon a brofodd newidiadau cadarnhaol ynghyd â'r pellter a deithiwyd sy'n nodi faint o newid a brofodd y disgyblion a'r athrawon - po uchaf yw'r ganran y mwyaf o newid a brofwyd.

### Tabl 11 – Deilliannau a brofwyd a phellter a deithiwyd ar gyfer disgyblion

| Deilliant | Newid cadarnhaol cyffredinol | Pellter a deithiwyd |
|---|---|---|
| Datblygu ddiddordeb mewn arteffactau | 88% | 51% |
| Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes morwrol a lleol | 81% | 58% |
| Teimlo'n hapus ac yn oleuedig ar ôl clywed straeon | 88% | 41% |
| Balchder yn ein treftadaeth | 88% | 71% |

### Tabl 12 – Deilliannau a brofwyd a phellter a deithiwyd ar gyfer athrawon

| Deilliant | Newid cadarnhaol cyffredinol | Pellter a deithiwyd |
|---|---|---|
| Mwy o hyder i addysgu plant am hanes morwrol a lleol | 100% | 60% |

Mae'r canlyniadau wedi'u diffinio'n dda a nodwyd ar gyfer disgyblion ac athrawon wedi'u hamlygu yn Nhabl 11 a 12 a ffocws yr adran hon yw trafod y canlyniadau wedi'u diffinio'n dda yn fanylach:-

## Deilliannau Disgyblion

### Deilliant 8: Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sy'n arwain at deimlad cynyddol o falchder yn ein treftadaeth




Wrth drafod gyda disgyblion Ysgol Nefyn roedd wedi dod i ymweld â’r Amgueddfa, daeth yn glir yn y grŵp ffocws bod y plant yn teimlo’n gyffrous eu bod nhw yn cael profiad tu allan i’r dosbarth ac

yn cael gweld arteffactau go-iawn. Roedd llawer o blant yn trafod bod nhw wedi swyno ac wedi magu diddordeb mewn arteffactau megis ‘Y Sgerbwd,’ ‘y caban,’ mwgwd nwy a medalau milwyr. Dyma rai o’r sylwadau a wnaed sy’n crynhoi hyn:

---

**“Roeddwn gyda diddordeb yn hanes Capten Griffiths o Lithfaen.”**

**“Gwelon ni wisg, pasport a medalau milwyr, roedd hyn yn ddiddorol.”**

**“Dysgais am Nefyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd yn ddiddorol, enwedig am Glan Pwll ac yr Eidalwyr oedd eisiau aros yma ar ol y rhyfel orffen!”**

---

Roedd llawer o blant wedi mynegi eu bod wedi dysgu llawer am hanes lleol ac roedd hyn wedi diddori nhw. Yn nol Cyngor Gwynedd (2025), mae'r ymwybyddiaeth a’r wybodaeth mae plant yn dysgu am y byd naturiol a'u hardal leol yn bwysicach nag erioed fel bod plant a phobl ifanc yn medru gweld eu lle o fewn yr ecosystem ac yr effaith mae pobl yn cael ar fywyd gwyllt. Mae dysgu am hanes lleol bellach wedi cael ei ychwanegu i'r Cwricwlwm. Mae datganiad gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (Llywodraeth Cymru, 2022) yn pwysleisio pwysigrwydd i ddysgu am hanes lleol:-

**“Mae’n hanfodol ein bod yn parhau i hybu a chefnogi’r gwaith o gyflwyno hanes Cymru yn y cwricwlwm newydd ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu’n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd. Mae’n bwysig bod pobl ifanc yn gallu ymchwilio i hanes amrywiol Cymru, canfod eu treftadaeth, deall pwysigrwydd y Gymraeg a datblygu dealltwriaeth o’u Cynefin.”**

Roedd nifer o blant yn mynegi ei bod nhw yn teimlo yn hapus eu bod nhw yn cael darllen a chlywed am hanes morwrol lleol. Roedd rhai plant yn mynegi eu bod wedi gwneud cysylltiadau teuluol roedd wedi gwneud iddyn nhw deimlo’n hapus. Ar yr un amser, roedd plant yn mynegi eu bod nhw hefyd yn teimlo eu bod wedi dychryn clywed yr hanes a dysgu beth oedd pobl leol neu gysylltiadau teuluol wedi bod drwyddi yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn ôl ymchwil, mae’r effaith emosiynol wrth ymgysylltu gyda treftadaeth yn medru cael effaith ar ddatblygiad plant. Er enghraifft, gall lleoedd hanesyddol weithredu fel mannau lle mae plant yn cymryd rhan mewn chwarae creadigol a dychmygus sy'n bwysig ar gyfer datblygu sgiliau emosiynol a gwybyddol plant. Canfu astudiaeth gan Trenter et al

(2021[15]) a archwiliodd sut mae plant yn ymwneud â safleoedd hanesyddol fod dychymyg yn ffordd allweddol y mae plant yn gwneud synnwyr o'r gorffennol.

Yn ystod y broses ymgysylltu, daeth i'r amlwg bod plant yn profi teimlad cynyddol o falchder am eu treftadaeth. Roedd rhai unigolion yn esbonio eu bod yn teimlo'n "ddiolchgar" o ddigwyddiadau yn y gorffennol er mwyn cyrraedd lle rydym ni rŵan. Roedd llawer o blant roedd wedi trafod yn y grŵp ffocws wedi dweud eu bod wedi dysgu llawer mwy am le maent yn byw ac am hanes bobl leol.

Yn ôl ymchwil, mae ymweliadau treftadaeth yn cael effaith positif ar gyfer ddatblygiad hunaniaeth, diogelwch ac ymdeimlad o berthyn (Johnston a Marwood, 2017). Mae'n hefyd yn cael effaith positif ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc gan fod ymchwil yn dangos bod plant sydd wedi dysgu am eu treftadaeth yn teimlo eu bod yn perthyn ac yna gyda hunan-barch cynyddol (Lakey et al., 2017).

Wrth gyfweld athrawes o Ysgol Pentreuchaf o gwmpas y digwyddiad 'Perthyn i'r Porthau', roedd hi'n sôn bod y plant wedi mwynhau dysgu am enwau porthau wahanol ac roedd clywed straeon gan aelodau teulu yn bersonol iawn. Roedd rhai o'r plant wedi cael cyfle i berfformio'r gân roeddynt wedi ysgrifennu gyda Gwyneth Glyn yn Rali Gymdeithas yr Iaith. Roedd hyn yn dod a theimlad cynyddol o falchder ymhlith y disgyblion o'u treftadaeth.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 88% o'r disgyblion a ddychwelodd yr arolygon wedi nodi bod ymweld â'r Amgueddfa wedi creu teimlad cynyddol o falchder yn eu treftadaeth. Felly, cafodd 141 o ddisgyblion eu cynnwys yn y map gwerth. Yn ogystal, cyfrifwyd bod y pellter a deithiwyd yn 71% (h.y. lefel y newid y mae'r disgyblion yn ei brofi trwy ymweld â'r Amgueddfa). Felly, hawliwyd 71% o werth ariannol y canlyniad hwn yn y map gwerth. Roedd 100% o athrawon hefyd wedi cadarnhau'r canlyniad hwn yn eu harolwg. Cryfhaodd hyn ein hyder i gynnwys y canlyniad hwn.

## Deilliant 11: Codi hyder athrawon




[15] Trenter, C., Ludvigsson, D. and Stolare, M., (2021) 'Collective immersion by affections: How children relate to heritage sites.' Public History Review, 28, pp.1-13.
https://www.researchgate.net/publication/349713655_Collective_Immersion_by_Affections

Wrth drafod gydag athrawon o fewn ymweliadau ysgolion, roeddem yn teimlo bod athrawon hefyd yn profi deilliannau. Y deilliant hirdymor roedd wedi cael ei darganfod oedd bod athrawon yn teimlo hyder cynyddol i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a threftadaeth leol. Roedd athrawon yn esbonio eu bod yn teimlo eu bod yn dysgu wrth ymweld â'r Amgueddfa gyda'r dosbarth. Yn ychwanegol, roedd athrawon yn derbyn pecyn gwaith gan wirfoddolwyr sydd yn cynnwys testunau hanes, gweithgareddau, caneuon ac atodiadau i fwy o adnoddau. Roedd athrawon yn mynegi bod arbenigedd yr Amgueddfa wedi bod o fudd iddynt er mwyn addysgu'r disgyblion am hanes lleol. Roedd athrawon yn esbonio bod cael mynediad i'r straeon personol a lleol ddim yn bosibl heb yr Amgueddfa.

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod mynediad i amgueddfeydd ac adnoddau i athrawon yn bwysig iawn. Roedd Art Fund (2022) wedi darganfod bod 91% o athrawon yn ei holiadur wedi mynegi bod amgueddfeydd yn bwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer ei dosbarthiadau. Ond, mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod yna rhwystrau i ysgolion rhag ymweld ag amgueddfeydd yn aml ac mae hyn yn bennaf oherwydd cost a diffyg amser. Roedd nifer o wirfoddolwyr ac athrawon wedi mynegi hyn yn ein cyfweliadau ni hefyd. Base'r Amgueddfa yn hoffi gwneud mwy o sesiynau ar gyfer ysgolion ond nid yw nifer o ysgolion yn medru dod atynt oherwydd costau sydd yn ymwneud â theithio.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 100% o'r athrawon a ddychwelodd yr arolygon wedi nodi bod ymweld â'r Amgueddfa wedi codi eu hyder wrth addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a threftadaeth leol. Felly, cafodd pob un o'r 10 athro eu cynnwys yn y map gwerth. Yn ogystal, nodwyd bod y pellter a deithiwyd yn 60% (h.y. lefel y newid y mae'r athrawon yn ei brofi trwy ymwneud â'r Amgueddfa). Felly, hawliwyd 60% o werth ariannol y canlyniad hwn yn y map gwerth.

## 7.5 Meysydd i'w wella neu unrhyw deilliannau negyddol posibl wedi'u nodi?

Fel rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, fe geisiom hefyd ddeall a oes gan y sefydliad unrhyw welliannau neu fylchau posibl yn eu gwasanaeth. Yn ystod y cyfweliadau rydym bob amser yn gofyn i'r rhanddeiliaid 'A oes unrhyw newidiadau negyddol wedi'u profi, neu welliant neu newidiadau yr hoffech eu gwneud?' Byddem yn nodi unrhyw ganlyniadau negyddol posibl a brofwyd gan y rhanddeiliaid fel y gallwn argymell unrhyw gamau gweithredu i'r sefydliad i liniaru canlyniadau negyddol neu feysydd i'w gwella. Profwyd meysydd i'w gwella a chanlyniadau negyddol posibl yn

ystod y cyfnod ansoddol a meintiol. Dangosodd canlyniadau'r arolwg yn gyffredinol fod yr ymatebwyr yn fodlon ar eu profiad o'r amgueddfa. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod monitro parhaus yn cael ei wneud yn y dyfodol rhag ofn y bydd unrhyw ganlyniadau negyddol yn codi ac yn effeithio ar brofiad y rhanddeiliaid. Roedd rhai sylwadau a godwyd gan randdeiliaid y dylai Amgueddfa Forwrol Llŷn eu hystyried, gellir dod o hyd i'r rhain yn Atodiad 12.

# 8.0 Gwerth

Y gwahaniaeth rhwng defnyddio SROI o'i gymharu â fframweithiau eraill yw ei fod yn moneteiddio'r canlyniadau hyn. Mae defnyddio gwerth ariannol nid yn unig yn caniatáu inni gynrychioli stori'r hyn sy'n newid ym mywydau pobl ond mae hefyd yn ein galluogi i werthfawrogi'r newidiadau hyn fel y gallwn gymharu costau a chanlyniadau. Nid yw hyn yn ymwneud â rhoi pris ar bopeth, ond mae'n caniatáu inni ddangos pa effaith sydd gan y gwasanaeth ar randdeiliaid eraill a'r arbedion posibl y gall ymyrraeth eu creu. Mae hefyd yn mynd y tu hwnt i fesur ac yn galluogi sefydliadau i reoli eu gweithgareddau i sicrhau bod yr effaith orau bosibl yn cael ei chreu i'r rhai sydd bwysicaf iddynt, y cyfranogwyr.

## Procsis ariannol

Mae amrywiaeth o ddulliau o moneteiddio canlyniadau megis dewis datgeledig, mae'r dull hwn yn defnyddio nwyddau/gwasanaethau i adlewyrchu gwerthoedd y newidiadau a brofir gan y rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddai rhai'n dadlau nad yw'r rhain yn cynrychioli'r gwerth y byddai'r rhanddeiliad penodol sydd â phrofiad o'r newid yn ei briodoli iddo. Felly, lle bo'n bosibl, mae'r dadansoddiad hwn wedi defnyddio egwyddor gyntaf SROI i gynnwys rhanddeiliaid cymaint â phosibl, gofynnwyd i randdeiliaid roi eu canlyniadau yn nhrefn pwysigrwydd ac yna rhoi sgôr o 10 i'w pwysigrwydd. Yn y data meintiol, gofynnwyd hefyd i ymwelwyr, pobl leol, gwirfoddolwyr, disgyblion ac athrawon gadarnhau pwysigrwydd unrhyw newidiadau yn yr arolwg. Drwy gynnwys rhanddeiliaid i ddeall eu dewisiadau, mae'r dadansoddiad hwn yn gallu sicrhau bod pob dirprwy ariannol yn adlewyrchu pwysigrwydd y newidiadau y maent wedi'u profi.

## 8.1 Gwirfoddolwyr

Y procsi a ystyriwyd fwyaf priodol ar gyfer gwirfoddolwyr oedd 'Integreiddio Cymunedol Cynyddol' gan Measure Up[16]. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu llywodraethu gan bolisi'r llywodraeth drwy'r Llyfr Gwyrdd ac yn dod o ystadegau Bodlonrwydd Bywyd Cenedlaethol sydd ar gael, ac felly maent yn ffynhonnell ddibynadwy. Teimlwyd bod y procsi ariannol hwn yn addas gan ei fod yn debyg iawn i'r canlyniad gwerthfawr angor sef 'Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl.' Gwerth y dirprwy hwn yw £4,200 yr unigolyn. Felly, i gyfrifo'r gwerth i wirfoddolwyr, cyfrifwyd y pellter teithio, a oedd yn 71%. Felly, defnyddiwyd 71% o werth y dirprwy hwn sy'n rhoi gwerth o **£2,982** i'w gynnwys yn y Map Gwerth ar gyfer y canlyniad hwn.

Yna defnyddiwyd y 'dull angori' i gyfrifo'r canlyniadau eraill ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae 'angori' yn cyfeirio at ddefnyddio 'llinell sylfaen' i amcangyfrif canlyniadau gwerth cymdeithasol. Y gwerth angor oedd 'Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl' gan mai dyma oedd y gwerth uchaf gan y gwirfoddolwyr sef 8 allan o 10. Defnyddiwyd hyn fel 'llinell sylfaen' wrth gymharu'r canlyniadau eraill ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn osgoi gor-hawlio. Felly, gwerthwyd y canlyniadau eraill fel cyfrannau yn seiliedig ar ba mor bwysig oedd pob canlyniad a adroddwyd.

Ar gyfer y canlyniad 'Gwell hunanhyder wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd', rhoddodd y gwirfoddolwyr bris o 6/10 iddo, felly gwnaed y cyfrifiad canlynol:

**£2,982 (gwerth canlyniad angor, Teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl) * (6/8) = £2,237.**

Ar gyfer y trydydd canlyniad, 'Yr ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned wrth i wirfoddolwyr gael y cyfle i gymdeithasu a theimlo'n rhan o dîm,' rhoddodd y gwirfoddolwyr sgôr o 6.6/10 i'r canlyniad hwn. Felly, gwnaed y cyfrifiad canlynol:

**£2,982 (gwerth canlyniad angor, Teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl) * (6.6/8) = £2,460.15.**

[16] Measure Up (2025) 'Increased Community Integration.' [Increased Community Integration | Outcomes | MeasureUp]

## 8.2 Ymwelwyr

Y procsi a ddefnyddiwyd ar gyfer ymwelwyr oedd 'Presenoldeb mewn Digwyddiadau Diwylliannol' gan Measure Up[17] a werthwyd yn £3,100 yr unigolyn. Y procsi hwn oedd y mwyaf priodol gan ei fod yn ystyried profiad yr ymwelwyr o hanes ac ymdeimlad o gymuned. Gosodwyd gwerth y procsi ar y canlyniad pwysicaf i ymwelwyr sef 'Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad â hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn' gan iddo sgorio 8.4 allan o 10. Yna cymerwyd y pellter a deithiwyd a oedd yn 63%, sy'n rhoi gwerth o **£1,953** a gynhwyswyd yn y Map Gwerth.

Ar gyfer y canlyniad arall a nodwyd gan ymwelwyr sef 'Cyfarfod ag ymwelwyr eraill a phobl leol a chael y cyfle i gymdeithasu,' rhoddwyd sgôr o 7.5 allan o 10 i'r canlyniad. Felly, gan ddefnyddio'r dull angori, gwnaethom y cyfrifiad canlynol:

**£1,953 (gwerth canlyniad angori, 'Gwybodaeth ac ymgysylltiad gwell â hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn') * (7.5/8.4) = £1,744**

## 8.3 Pobl Lleol

Y procsi ariannol a ddefnyddiwyd ar gyfer pobl leol oedd 'Integreiddio Cymunedol Cynyddol' gan Measure Up[18]. Roedd y procsi ariannol hwn fwyaf addas ar gyfer pobl leol gan ei fod yn cyd-fynd â'r canlyniad a werthfawrogwyd fwyaf gan bobl leol sef 'Teimlad o falchder yn ein treftadaeth' (sgoriodd 7 allan o 10). Gwerth y dirprwy hwn yw £4,200 fesul unigolyn. Felly, cymerwyd y pellter a deithiwyd a oedd yn 57% - mae hyn yn rhoi gwerth o **£2,394** a gynhwyswyd yn y map gwerth.

Ar gyfer y canlyniad arall a nodwyd gan bobl leol, sef 'Teimlad o berthyn i'r gymuned,' roedd y canlyniad wedi'i brisio ar 6.8 allan o 10. Felly, gan ddefnyddio'r dull angori, gwnaethom y cyfrifiad canlynol:

**£2,394 (gwerth canlyniad angori, 'Teimlad o falchder yn ein treftadaeth') * (6.8/7) = £2,326.**

## 8.4 Disgyblion

I ddisgyblion, roedd hi'n anodd dod o hyd i werth lles priodol a oedd yn adlewyrchu eu hoedran gan fod nifer o werthoedd lles yn seiliedig ar oedolion. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd Measure Up wedi rhyddhau dirprwy penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Felly, y procsi

[17] Measure Up (2025) 'Attendance at Cultural Events.' Attendance at Cultural Events | Outcomes | MeasureUp
[18] Measure Up (2025) 'Increased Community Integration.' Increased Community Integration | Outcomes | MeasureUp

ariannol a ddewiswyd oedd 'Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Ieuenctid'[19] gan fod y dirprwy yn adlewyrchu plant yn dysgu am faterion creadigol a diwylliannol yn eu bywydau. Y procesi ariannol hwn yw £1,550 y plentyn am wythnos o weithgaredd. Fodd bynnag, oherwydd mai dim ond un diwrnod oedd y sesiwn o'r Amgueddfa, dadansoddwyd y dirprwy fesul dydd a oedd yn £310. Gosodwyd y gwerth hwn ar yr unig ganlyniad wedi'i ddiffinio'n dda a nodwyd ar gyfer disgyblion sef 'Teimlad cynyddol o falchder dros ein treftadaeth.' Tynnwyd y pellter a deithiwyd allan o'r gwerth a oedd yn 58% - mae hyn yn rhoi gwerth o **£220.10** a gynhwyswyd yn y map gwerth.

## 8.5 Athrawon

I athrawon, roedd hi'n anodd dod o hyd i procsi priodol a oedd yn adlewyrchu'r gefnogaeth benodol a gawsant i gynyddu eu hyder wrth addysgu disgyblion am hanes lleol. Felly, penderfynwyd mai'r procsi ariannol mwyaf priodol oedd 'Dysgu Oedolion ar gyfer Gwaith' gan Measure Up[20] gan ei fod yn adlewyrchu amser yr athrawon a fuddsoddwyd mewn dysgu am yr amgueddfa forwrol leol er budd eu myfyrwyr. Y gwerth ar gyfer yr agwedd o’r procsi sy'n ystyried 'bod yn gymorth i helpu plant' oedd £600 yr unigolyn. Gan mai dim ond un canlyniad a ganfuwyd ar gyfer athrawon sef 'Hyder gwell i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol' cymerwyd y pellter a deithiwyd, sef 60%. Mae hyn yn rhoi gwerth o **£360** a gynhwyswyd yn y map gwerth.

Gweler isod yn Nhabl 13 y gwerthoedd a roddwyd i bob canlyniad ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid.

### Tabl 13 – Gwerth Deilliannau

| Grŵp Rhanddeiliaid | Deilliannau | Pellter Teithio | Pwysiad Cyfartalog | Gwerth yn y Map Gwerth |
|---|---|---|---|---|
| Gwirfoddolwyr | Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | 71% | 8 | £2,982 |
| | Gwirfoddolwyr gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd | 49% | 6 | £2,237 |
| | Gwirfoddolwyr gydag ymdeimlad cynyddol o | 60% | 6.6 | £2,460.15 |

[19] [19]Measure Up (2025) 'Engaging in Youth Activities.'Engaging in Youth Activities | Outcomes | MeasureUp

[20] Measure Up (2025) ‘Adult Learning for Work.’ Adult Learning for Work | Outcomes | MeasureUp

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | berthyn i'r gymuned gan ei bod yn cael cyfle i gymdeithasu a theimlo yn rhan o dîm. | | | |
| | | | | |
| **Ymwelwyr** | Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn | 63% | 8.4 | £1,953 |
| | Cwrdd ag ymwelwyr eraill a phobl leol a chael cyfle i gymdeithasu | 63% | 7.5 | £1,744 |
| | | | | |
| **Pobl Lleol** | Teimlad o falchder yn ein treftadaeth | 57% | 7 | £2,394 |
| | Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned | 60% | 6.8 | £2,326 |
| | | | | |
| **Disgyblion** | Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sy'n arwain at deimlad cynyddol o falchder yn ein treftadaeth | 71% | 7.3 | £220.10 |
| | | | | |
| **Athrawon** | Gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol | 60% | 8 | £360 |

## 9.0 Sefydlu'r effaith

Er mwyn asesu gwerth cyffredinol canlyniadau'r Amgueddfa, mae'n bwysig sefydlu faint sy'n benodol i ganlyniad y prosiect. Mae SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifyddu derbyniol i ddisgowntio'r gwerth yn unol â hynny, drwy ofyn;

• Beth fyddai wedi digwydd beth bynnag (gwrthffeithiol)?

• Beth yw cyfraniad eraill (priodoliad)?

• A yw'r gweithgareddau wedi dadleoli gwerth o rywle arall (dadleoli)?

• Os disgwylir i ganlyniad bara am fwy na blwyddyn, beth yw'r gyfradd y mae gwerth a grëwyd gan brosiect yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf (gostyngiad)?

Mae cymhwyso'r pedwar mesur hyn yn creu dealltwriaeth o gyfanswm gwerth net y canlyniadau ac yn helpu i lynu wrth yr egwyddor o beidio â gor-hawlio. Rhoddwyd cyfradd ddisgownt isel, ganolig ac uchel i bob egwyddor lleihau gwerth, yn dibynnu ar yr effaith a grëwyd gan eraill.

Er mwyn cael dull cyson, bydd y gwahanol lefelau o bwysau marw a phriodoliad yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r cyfraddau isod:

**Isel = 30%**

**Canolig = 60%**

**Uchel = 90%**

## 9.1 Gwrthffeithiol

Mae gwrthffeithiol yn caniatáu inni ystyried beth fyddai'n digwydd pe na bai'r gwasanaeth ar gael. Mae yna bob amser y posibilrwydd y byddai'r cyfranogwyr wedi cael yr un canlyniadau trwy weithgaredd arall. Yn unol ag egwyddor tryloywder, mae'r lefelau gwrthffeithiol a briodolir ar gyfer pob canlyniad yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar yr adnoddau / grwpiau / gweithgareddau yn ardal Pen Llŷn a'r adborth a roddwyd gan y rhanddeiliaid yn y cyfweliadau a'r sesiynau grŵp ffocws. Gellir gweld y lefel a briodolir o wrthffeithiol a'r cyfiawnhad a roddir i bob canlyniad a nodwyd isod yn Nhabl 14.

### Tabl 14 – Gwrthffeithiol

| Deilliannau | Gwrthffeithiol | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | | |
| Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | **30%** | O fewn y broses ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr, gofynnwyd a oeddent yn gwirfoddoli yn rhywle arall ac roedd 8 o wirfoddolwyr o'r sampl wedi dweud ei bod yn gwirfoddoli mewn llefydd eraill fel Canolfan Nefyn, Tŷ Gobaith ac mewn Banc Bwyd lleol. Felly, mae'n debygol bod gwirfoddolwyr yn profi rhai o'r deilliannau yn y meysydd yma hefyd. Ond, o edrych ar ymatebion gwirfoddolwyr i'r cwestiwn - 'Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n cael yr un deilliannau pe baech chi'n gwirfoddoli yn unrhyw le arall? – yn yr arolwg, roedd llawer o wirfoddolwyr yn nodi eu bod yn dysgu sgiliau newydd, ond bod profiad maen nhw'n cael yn yr Amgueddfa yn unigryw. Mae'r dyfyniad yma gan wirfoddolwr yn crynhoi hyn: **"Rwy'n rhan o dîm da yn gwirfoddoli gyda Llanw Llyn ac rwyf wedi dysgu sgiliau newydd, ond mae'r Amgueddfa yn golygu llawer mwy o amrywiaeth yn y gwaith gwirfoddol dwi'n wneud- delio gyda stoc i'r siop, cynllunio labeli, meddwl am grefftau a phethau fedrwn ni eu creu yn** |
| Gwirfoddolwyr gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd. | | |
| Gwirfoddolwyr gydag | | |

| | | |
|---|---|---|
| ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned gan ei bod yn cael cyfle i gymdeithasu a theimlo yn rhan o dîm. | | **ogystal â rhedeg elusen fach. Mae gwaith penodi a Chyfrifoldeb am gyflogi etc.. yn rhan o hynny."**<br>Mae gwirfoddolwyr eraill hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr elfen hanesyddol i'r Amgueddfa yn unigryw iawn. Felly, wrth ystyried hyn ac ymateb y gwirfoddolwyr i'r cwestiwn gwrthffeithiol yn yr arolwg, defnyddir lefel isel o 30%. |
| **Ymwelwyr** | | |
| Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn.<br><br>Cwrdd ag ymwelwyr eraill a phobl leol a chael cyfle i gymdeithasu. | **60%** | Wrth ystyried ymwelwyr, mae'n bosibl iddynt ymweld â llawer o atyniadau eraill ar draws Pen Llŷn ac felly yn medru profi'r deilliannau yma yno. Ond, wrth drafod gydag ymwelwyr, nodwyd nifer eu bod yn teimlo bod profiad yr Amgueddfa yn unigryw gan ei bod yn pwysleisio ar hanes Morwrol yn benodol. Dyma rai dyfyniadau o'r holiadur sy'n crynhoi hyn:-<br>**"Na, mae awyrgylch yr amgueddfa yn Nefyn yn gwneud y lleoliad yn unigryw."**<br>**"Mae amgylchedd morwrol Llŷn yn unigryw i Lŷn a'i hanes morwrol - amhosibl mwynhau'r un profiad yn unman arall yn fy marn i!"**<br>**"Mae amgueddfa forwrol draw yng Nghaergybi, ond nid oes yr un o fewn pellter hir mewn car (50+ milltir) o Amgueddfa Forwrol Llyn. Mae'r amgueddfa'n unigryw oherwydd ei bod yn adrodd hanes Llyn a'r môr, sef ein milltir sgwâr ni."**<br>Felly, wrth ystyried hyn a'r trafodaethau a gafwyd o fewn grwpiau ffocws, defnyddiwyd lefel ganolig realistig o 60%. |
| **Pobl Lleol** | | |
| Teimlad o falchder yn ein treftadaeth<br><br>Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned | **30%** | O fewn y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda phobl leol, nododd llawer fod ymdeimlad o gymuned yn Nefyn oherwydd bod nifer o sefydliadau wedi'u sefydlu megis y Ganolfan Gymunedol, tafarn gymunedol yr Heliwr, a'r Ecoamgueddfa. Felly, mae'n debygol bod pobl leol yn profi rhai o'r canlyniadau yn yr ardaloedd hyn beth bynnag. Fodd bynnag, mae'r Amgueddfa'n darparu profiad unigryw am hanes morwrol lleol ac yn trefnu digwyddiadau penodol am hanes sy'n dod â'r gymuned ynghyd ac roeddem yn teimlo bod hyn yn werthfawr i bobl leol. Felly, defnyddiwyd lefel isel o 30% o wrthffeithiol. |
| **Disgyblion** | | |
| Gwell gwybodaeth a ymwybyddiaeth o hanes lleol sydd yn dilyn i teimlad cynyddol o | **60%** | Gofynnwyd cwestiwn i ddisgyblion yn yr arolwg ynghylch pa mor debygol y byddent wedi profi'r canlyniadau hyn beth bynnag, yn eu barn nhw, ac roedd canlyniadau'r arolwg yn 42%.<br>Wrth drafod gyda disgyblion yn y grwpiau ffocws, rhannodd y plant eu bod yn dysgu am hanes drwy eu gwersi yn yr ysgol. Fodd bynnag, nododd y disgyblion eu bod yn mwynhau treulio amser yn gweld yr arteffactau ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| falchder am ein treftadaeth. | | clywed mwy am hanes lleol Nefyn ac yn benodol – hanes Morwrol. Felly, wrth ystyried hyn i gyd, defnyddiwyd lefel ganolig o 60% o wrthffeithiol. |
| **Athrawon** | | |
| Gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol. | **60%** | Wrth drafod gydag athrawon, roedd e nhw'n nodi bod y profiad yn yr Amgueddfa a'r pecyn gwaith maen nhw yn ei dderbyn gan yr Amgueddfa yn rhoi gwybodaeth unigryw maen nhw heb fedru cael unrhyw le arall. Roedd hyn wedi rhoi hyder iddynt i gynnwys mwy am hanes lleol yn ei gwersi yn yr ysgol. Mae'r dyfyniad yma yn crynhoi hyn:- **"Roedd ein profiad yn yr amgueddfa yn werthfawr iawn."** Fodd bynnag, mae athrawon ac ysgolion yn paratoi gwersi o amgylch hanes drwy gydol y flwyddyn. Felly, wrth ystyried hyn i gyd, defnyddiwyd lefel ganolig o 60% o wrthffeithiol. |

## 9.2 Priodoli

Mae priodoli yn caniatáu inni gydnabod cyfraniad eraill tuag at gyflawni canlyniadau. Mae yna bob amser y posibilrwydd y bydd eraill yn cyfrannu at unrhyw newidiadau ym mywydau pobl fel aelodau o'r teulu neu sefydliadau eraill. Gofynnwyd cwestiwn i ymwelwyr, pobl leol, gwirfoddolwyr, disgyblion ac athrawon ynghylch lefel y priodoli y byddent yn ei rhoi i eraill o fewn yr arolygon a rhoddwyd pum opsiwn iddynt ddewis ohonynt, ac yna rhoddwyd sgôr allan o 100% i'w hymatebion. Defnyddiwyd y fformiwla ganlynol i gyfrifo'r lefelau priodoli;

- Nid yw'r un o'r newidiadau oherwydd eraill
- Mae rhai o'r newidiadau yn ganlyniad i eraill
- Mae swm sylweddol o'r newidiadau oherwydd eraill
- Mae llawer o'r newidiadau oherwydd eraill
- Mae'r holl newidiadau oherwydd eraill

Ystyriwyd y data o'r arolygon o fewn y lefelau priodoli. Fodd bynnag, cynhwyswyd tystiolaeth o gyfweliadau a grwpiau ffocws hefyd, felly gan ddilyn y lefelau canolrifol – dilynwyd y lefelau isel (30%), canolig (60%) neu uchel (90%). Gellir gweld y lefel o briodoli a'r cyfiawnhad a roddwyd i bob rhanddeiliad a nodwyd isod yn Nhabl 15.

## Tabl 15 – Priodoli

| Deilliannau | Priodoli | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | | |
| Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | **60%** | Canfu canlyniadau'r arolwg ar gyfer gwirfoddolwyr lefel briodoliad gymedrig o 23%. O fewn y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda gwirfoddolwyr, rhannodd llawer eu bod yn gwirfoddoli mewn mannau eraill ac yn ymwneud â gweithgareddau eraill yn y gymuned fel Merched y Wawr. Roedd llawer o wirfoddolwyr hefyd yn cymdeithasu'n rheolaidd gyda theulu a ffrindiau. Felly, mae'n debygol bod gwirfoddolwyr yn profi rhai o'r canlyniadau yn y meysydd hyn hefyd. Felly, wrth ystyried pob agwedd, teimlai'n briodol dilyn y canolrif o lefel ganolig (60%) o briodoliad ar gyfer gwirfoddolwyr. |
| Gwirfoddolwyr gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd. | | |
| Gwirfoddolwyr gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned gan ei bod yn cael cyfle i gymdeithasu a theimlo yn rhan o dîm. | | |
| **Ymwelwyr** | | |
| Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn. | **90%** | O'r arolwg gyda ymwelwyr, nodwyd canlyniad cymedrig o 44% ar gyfer y cwestiwn priodoli. Wrth siarad ag ymwelwyr, rhannasant eu bod yn ymweld â llawer o atyniadau eraill sy'n rhan o'r Ecoamgueddfa fel Oriel Cynllun Glyn y Weddw, Nant Gwrtheryn a Felin Uchaf ac felly byddant yn profi rhai o'r canlyniadau hyn yno. O ran cymdeithasu, mae rhai o'r ymwelwyr yn edrych o gwmpas yr amgueddfa ac yna'n ymweld â chaffi neu dafarn arall lle maent yn cymdeithasu â phobl leol. Felly, roedd yn teimlo'n bwysig ystyried hyn felly cymhwyswyd y canolrif o 90% (lefel uchel) i briodoli ymwelwyr. |
| Cwrdd ag ymwelwyr eraill a phobl leol a chael cyfle i gymdeithasu. | | |
| **Pobl Lleol** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Teimlad o falchder yn ein treftadaeth<br><br>Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned | **60%** | Roedd canlyniadau'r arolwg ar gyfer y cwestiwn priodoli i bobl leol yn 42%. O fewn y broses ymgysylltu â phobl leol, roedd llawer yn falch o'u hanes a'u treftadaeth ac yn angerddol am drosglwyddo hyn i'r genhedlaeth nesaf. Byddent yn rhannu straeon am hanes eu teuluoedd gyda'u teulu, ffrindiau ac ymwelwyr pan fyddent allan yn y gymuned. Mae llawer o'r trigolion lleol hefyd yn cymdeithasu mewn llawer o ddigwyddiadau a grwpiau eraill o fewn y gymuned fel yr RNLI, Merched y Wawr a Prynhawn Difyr. Felly, mae'n debygol bod pobl leol yn profi rhai o'r canlyniadau yn yr ardaloedd hyn hefyd. Felly, wrth ystyried yr holl wybodaeth, mae lefel ganolig o 60% o briodoli wedi'i chymhwyso. |
| **Disgyblion** | | |
| Gwell gwybodaeth a ymwybyddiaeth o hanes lleol sydd yn dilyn i teimlad cynyddol o falchder am ein treftadaeth. | **60%** | Dangosodd canlyniadau'r arolwg lefel priodoli o 28% ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, wrth siarad â disgyblion o fewn y grŵp ffocws pan ddaeth ysgol i ymweld â'r amgueddfa, roedd yn ymddangos bod rhai disgyblion yn gyfarwydd â rhai o'r straeon gan fod aelodau'r teulu wedi rhannu hyn gyda nhw. Nododd plant hefyd eu bod yn dysgu am hanes trwy eu gwersi yn yr ysgol. Felly, wrth ystyried hyn i gyd, roedd yn teimlo'n gywir defnyddio lefel ganolig o briodoli 60% ar gyfer disgyblion. |
| **Athrawon** | | |
| Gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol. | **60%** | Canfu canlyniadau arolwg yr athrawon lefel briodoliad gymedrig o 25%. Wrth drafod gydag athrawon, rhannasant eu bod yn cysylltu â llawer o atyniadau lleol eraill fel rhan o'r Ecoamgueddfa er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant. Felly mae'n debygol bod athrawon yn dysgu rhywfaint o wybodaeth a sgiliau o'r profiadau hyn hefyd. Felly, cymhwyswyd y canolrif o 60% o briodoliad ar gyfer athrawon. |

## 9.3 Dadleoli

Mae angen inni ystyried a oedd y canlyniadau'n dadleoli canlyniadau eraill mewn mannau eraill. Er enghraifft, os ydym yn ymdrin â gweithgarwch troseddol mewn un stryd, a ydym newydd symud y broblem i rywle arall?

Yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid cynradd ac ymchwil eilaidd, ni chanfuwyd bod unrhyw ddadleoli wedi digwydd oherwydd y prosiect hwn.

## 9.4 Gostyngiad

Mae'r dadansoddiad hwn yn cipio'r gwerth a gynhyrchwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2025–2026, pan dderbyniwyd y cyllid, ac mae'n cynnwys rhagolwg ar gyfer blwyddyn ychwanegol. Yn unol ag arfer safonol, mae cyfradd gostyngiad fel arfer yn cael ei chymhwyso yn y blynyddoedd dilynol i adlewyrchu'r dirywiad graddol mewn canlyniadau dros amser ac i sicrhau nad yw'r effaith yn cael ei gorbriodoli i'r prosiect.

Fodd bynnag, prif nod Amgueddfa Forwrol Llŷn yw cadw hanes morwrol a lleol yn fyw i ymwelwyr, pobl leol a'r genhedlaeth nesaf yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o gymuned i bobl leol. Mae tystiolaeth o drafodaethau gyda rhanddeiliaid yn awgrymu bod y canlyniadau hyn yn gysylltiedig yn agos ag ymgysylltiad parhaus ac felly'n annhebygol o barhau y tu hwnt i gyfranogiad.

I gydbwyso hyn â dull gofalus ac osgoi gor-hawlio effaith, mae lefel isel o 10% mewn gostyngiad wedi'i chymhwyso o fewn y map gwerth ar gyfer gwirfoddolwyr, pobl leol, disgyblion ac athrawon. Mae hyn oherwydd eu bod yn debygol o barhau i gymryd rhan yn yr amgueddfa ac yn debygol o ymgysylltu ychydig o weithiau'r flwyddyn. Mae gostyngiad o 50% wedi'i gymhwyso i ymwelwyr gan nad ydynt yn ymweld mor rheolaidd â'r rhanddeiliaid eraill - efallai y bydd llawer yn ymweld ar sail untro.

# 10.0 Canlyniadau SROI

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol y dadansoddiad SROI o Amgueddfa Forwrol Llŷn. Yn sail i'r canlyniadau hyn mae'r wyth egwyddor SROI sydd wedi'u cymhwyso'n ofalus i bob rhan o'r dadansoddiad hwn. Mae’r canlyniadau’n dangos y cyfraniad cadarnhaol mae’r Amgueddfa yn ei wneud drwy ymroddiad staff a gwirfoddolwyr, i greu newid cadarnhaol ym mywydau pobl. Y fformiwla i gyfrifo canlyniad SROI yw:

**SROI = <u>Gwerth presennol net y budd</u>**

**Gwerth mewnbynnau**

Mae'r canlyniadau'n dangos, am bob £1 a fuddsoddir, bod **£4.69** o werth cymdeithasol yn cael ei gynhyrchu. Mae'r canlyniad hwn yn dangos bod ymroddiad staff a gwirfoddolwyr yn creu enillion cadarnhaol iawn i'r holl bobl yr effeithir arnynt gan yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa wrth wraidd y gymuned ac mae'n bwysig iawn er mwyn portreadu hanes, iaith a threftadaeth forwrol leol i ymwelwyr, pobl leol, addysg ac yn bwysicaf oll, i'r genhedlaeth nesaf yn y dyfodol. Mae diogelu hanes y bobl a hanes morwrol Pen Llŷn yn allweddol i wirfoddolwyr a phobl leol yn bennaf fel bod y genhedlaeth nesaf yn ymwybodol ac yn parchu digwyddiadau'r gorffennol oherwydd eu bod wedi llunio'r dyfodol. Mae diogelu adeilad yr Amgueddfa yn sicrhau dyfodol hirdymor yr Amgueddfa, sy'n golygu y gall y pwyllgor weithredu cynllun hirdymor i wella ei heffaith.

Mae Tabl 16 yn dangos y gwerth cyfredol a grëwyd ar gyfer pob un o'r rhanddeiliaid a gynhwyswyd a brofodd newidiadau sylweddol. Mae'r cyfrifiadau gwerth presennol yn ystyried y gyfradd ddisgownt o 3.5% fel yr awgrymwyd gan Bapur Gwyrdd y Trysorlys ar gyfer canlyniadau sy'n para mwy na blwyddyn. Mae Tabl 17 yn dangos y gwerth cymdeithasol a grëwyd gan bob prosiect.

## Tabl 16- Prif Ganlyniadau SROI

| **Cyfanswm y gwerth a grëwyd** | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gwerth presennol** | £868,153.75 |
| **Gwerth buddsoddiad** | £185,200.09 |
| **Gwerth presennol net (gwerth presennol llai buddsoddiad)** | £682,953.66 |
| **Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad** | **£4.69** |

## Tabl 17- Gwerth Cymdeithasol wedi'i Greu fesul Grŵp Rhanddeiliaid

| ***Rhanddeiliad*** | ***Cyfanswm £ o werth cymdeithasol*** | ***Cyfanswm % o werth cymdeithasol*** |
|---|---|---|
| ***Gwirfoddolwyr*** | £150,547.56 | **17.3%** |
| ***Ymwelwyr*** | £61,866.84 | **7%** |
| ***Pobl Lleol*** | £644,908.60 | **74.5%** |
| ***Disgyblion*** | £9,277.95 | **1.10%** |
| ***Athrawon*** | £1,076.26 | **0.10%** |

Er bod y gwerth cymdeithasol a grëir i'r disgyblion ac athrawon yn gymharol isel o'i gymharu â'r gwerth a grëir i'r rhanddeiliaid eraill, mae'n dal yn bwysig cydnabod y gwerth sydd yn cael ei chreu gan fod nod yr Amgueddfa yw gwneud yn siŵr bod hanes lleol yn cael ei chario'n mlaen i'r genhedlaeth nesaf. Mae'r gwirfoddolwyr, yn enwedig y rhai ar y tîm arteffactau, yn gweld bod y gwaith i addysgu disgyblion ac athrawon yn elfen bwysig o'r Amgueddfa. Nod yr Amgueddfa yw cyrraedd mwy o ddisgyblion ac ysgolion er mwyn cynyddu y gwerth yma.

## 11.0 Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r canlyniadau'n dangos y gwerth sylweddol iawn a grëwyd gan Amgueddfa Forwrol Llŷn ac mae'n seiliedig ar gymhwyso egwyddorion y fframwaith SROI. Er bod tybiaethau cynhenid yn y dadansoddiad hwn, mae cymhwyso'r egwyddor i beidio â gor-hawlio'n gyson yn arwain at danbrisio posibl rhai canlyniadau materol yn seiliedig ar faterion megis hyd yr effaith.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynllunio i asesu unrhyw dybiaethau a gynhwyswyd yn y dadansoddiad. Mae profi un newidyn meintiol ar y tro fel ffactorau gwrthffeithiol, ffactorau priodoli, y dirprwyon neu nifer y rhanddeiliaid a gynhwyswyd yn caniatáu nodi unrhyw faterion sydd ag effaith sylweddol ar y canlyniadau cyffredinol. Os bernir bod gan unrhyw fater effaith sylweddol, dylid ystyried y dybiaeth hon yn ofalus a'i rheoli wrth symud ymlaen. Mae angen cael data mwy cywir gan y gallai'r risg o anghywirdebau arwain at benderfyniadau is-optimaidd. I brofi'r dybiaethau yn y dadansoddiad hwn, newidiwyd ystod o faterion yn sylweddol i werthfawrogi eu heffaith. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl 18. Rydym wedi ystyried cynnwys rhan o'r buddsoddiad grant yn unig fel rhan o'r dadansoddiad hwn, gan fod posibilrwydd y bydd y gwaith cynnal a chadw a wneir yn yr Amgueddfa yn cael effaith am flynyddoedd i ddod e.e., byddai uwchraddio'r ffenestri yn para 5 mlynedd heb atgyweiriad. Felly, mae hyn wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad sensitifrwydd isod. Rydym wedi cynnwys y grant cyfan yn y gwerthusiad oherwydd cwmpas y gwerthusiad hwn yw edrych ar effaith y grant SPF.

Er bod rhai o'r profion sensitifrwydd yn dangos newidiadau i'r canlyniad, oherwydd maint y gwelliannau a wnaed a gwirio rhagdybiaethau a data gyda rhanddeiliaid, mae'r canlyniadau'n dal i ddangos, pe bai un newidyn yn cael ei newid yn sylweddol, bod y canlyniadau cyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn. Wrth newid rhai newidynnau, mae'r canlyniadau wedi newid 36% felly yn y dyfodol argymhellir mwy o drylwyredd wrth reoli rhai o'r rhain. Fel y gwelir yn Adran 8, cymerwyd gwahanol gamau i gefnogi'r rhagdybiaethau ar gyfer y canrannau pwysau marw a phriodoli. O'r tabl dadansoddi sensitifrwydd isod, gellir amcangyfrif bod yr asesiad gwerth cymdeithasol rhwng **£3.00 hyd at £6.16** am bob £1 a fuddsoddir. Ystyrir hyn yn enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad ac yn ystod resymol. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y map gwerth yn amcangyfrif bod y gwerth cymdeithasol yn **£4.69**

## Tabl 18- Crynodeb o Ddadansoddi Sensitifrwydd

| Newidyn | Rhagdybiaeth gyfredol | Rhagdybiaeth ddiwygiedig | SROI diwygiedig | Cyfran o Newid |
|---|---|---|---|---|
| **Gwirfoddolwyr** | | | | |
| Gwirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (55%) | £4.64 | -1.1% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (0%) | £4.89 | +4.1% |
| | Dadleoli (0%) | Dadleoli (30%) | £4.65 | -0.9% |
| Gwirfoddolwyr gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (0%) | £4.77 | +1.7% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (90%) | £4.54 | -3.2% |
| | Niferoedd y gwirfoddolwyr wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (32) | Niferoedd y gwirfoddolwyr wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (37) | £4.72 | +0.7% |
| Gwirfoddolwyr gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned gan ei bod yn cael cyfle i gymdeithasu a theimlo yn rhan o dîm. | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (60%) | £4.64 | -1.1% |
| | Priodoli (90%) | Priodoli (30%) | £4.60 | -2% |
| | Procsi ariannol – 'Integreiddio Cymunedol Cynyddol - £4,200 | Financial proxy - Gwirfoddoli'n rheolaidd' Measure Up - £3,400 | £4.60 | -2% |
| **Ymwelwyr** | | | | |
| Gwell gwybodaeth ac | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (20%) | £4.88 | +4% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn | Priodoli (90%) | Priodoli (60%) | £5.27 | +11.1% |
| | Dadleoli (0%) | Dadleoli (30%) | £4.63 | -1.3% |
| Cwrdd ag ymwelwyr eraill a phobl leol a chael cyfle i gymdeithasu | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (30%) | £4.79 | +2.1% |
| | Priodoli (90%) | Priodoli (30%) | £5.53 | +15.2% |
| | Nifer o ymwelwyr wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (310) | Nifer o ymwelwyr wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (620) | £4.83 | +2.9% |
| **Pobl Lleol** | | | | |
| Teimlad o falchder yn ein treftadaeth | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (60%) | £3.85 | -18% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (30%) | £6.16 | +23.9% |
| | Dadleoli (0%) | Dadleoli (30%) | £4.10 | -12.6% |
| Ymdeimlad o berthyn i'r gymuned | Gwrthffeithiol (30%) | Gwrthffeithiol (0%) | £5.34 | +12.2% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (75%) | £4.12 | -12.2% |
| | Procsi ariannol – Measure Up: Cymuned Gynyddol - £4,200 | Procsi ariannol - Cynnydd mewn boddhad bywyd o ymweld â threftadaeth (gan gynnwys amgylcheddau morol neu forwrol) - £2,167 | £3.00 | -36% |
| **Disgyblion** | | | | |
| Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sy'n arwain at deimlad cynyddol o falchder yn ein treftadaeth | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (90%) | £4.65 | -0.9% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (0%) | £4.76 | +1.5% |
| | Nifer o disgyblion wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (141) | Nifer o disgyblion wedi'u cynnwys yn y Map Gwerth (75) | £4.66 | -0.7% |
| **Athrawon** | | | | |
| Gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol | Gwrthffeithiol (60%) | Gwrthffeithiol (90%) | £4.68 | -0.3% |
| | Priodoli (60%) | Priodoli (0%) | £4.70 | +0.3% |
| | Procsi ariannol – Measure Up - Dysgu Oedolion ar gyfer Gwaith - Er mwyn gallu helpu plant - £600 | Procsi ariannol - Cost cyflwyniad a sesiwn gweithgareddau mewn ysgol gynradd (2021) - £103 | £4.68 | 0.3% |

| Buddsoddiad cyfalaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad cyfalaf | Cynnwys y buddsoddiad cyfan (£45,558.48). | Cynnwys dim ond 40% o’r buddsoddiad i ystyried dibrisiant (£18,223) | £5.50 | +14.8% |

# 12.0 Cyfyngiadau

Fel y dangoswyd uchod, cymerwyd gofal mawr i gadw at yr egwyddor o beidio â hawlio gormod. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai cyfyngiadau o fewn yr asesiad y mae angen eu hamlygu.

## 12.1 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Yn ystod y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, llwyddwyd i siarad â nifer dda o bobl leol, gwirfoddolwyr a phartneriaid. Ond, roedd niferoedd holiaduron ar gyfer ymwelwyr, phobl leol a disgyblion yn isel. Roedd hyn oherwydd amser o'r flwyddyn gan fod yr Amgueddfa wedi cau am y gaeaf yn ystod cyfnod dadansoddi, felly roedd casglu data yn heriol. Byddai cael mwy o ymatebion yn caniatáu i ni gynnwys mwy o ymwelwyr a phobl leol yn y map gwerth.

## 12.2 Nifer o ymwelwyr a phobl leol

Y nifer o ymwelwyr ar ei cyfan oedd wedi cael ei ystyried gan yr Amgueddfa ac yna amcangyfrif o 30% o'r niferoedd yma oedd wedi cael ei rhoi gan y rheolwr ar gyfer pobl leol. Nid oes prosesau ar hyn o bryd i gyfri ymwelwyr a phobl leol ar wahân. Felly, bysem yn argymell bod data yma yn cael ei chasglu yn y dyfodol er mwyn cyfrif yn gywir.

## 12.3 Mesur lefelau gwrthffeithiol a phriodoli

Gellir nodi y gall defnyddio un mesur ar gyfer lefelau gwrthffeithiol a phriodoli ar gyfer pob canlyniad ar gyfer pob rhanddeiliad fod yn gyfyngiad gan y gallai pobl brofi gwahanol lefelau ar gyfer gwahanol ganlyniadau. Er mwyn sicrhau mwy o drylwyredd yn y dyfodol, gellid gofyn i randdeiliaid am y lefelau gwrthffeithiol a phriodoli ar gyfer pob canlyniad ar wahân.

# 13.0 Risgiau

Yn unol ag egwyddor 6 – tryloywder mae angen i ni egluro'r risgiau yn yr adroddiad hwn (cyfeiriwch at dabl 19 isod). Mae'r rhagolwg SROI hwn yn cael ei ysgrifennu gyda'r prosiect yn dal i fynd rhagddo, felly mae rhai risgiau wedi'u canfod, ac yna wedi'u lliniaru gystal â phosibl yn unol â'r 8 egwyddor gwerth cymdeithasol.

## Tabl 19- Risgiau

| Risg | Camau a gymerwyd i leihau'r risg |
|---|---|
| **Casglu data**– casglwyd yr arolygon yn yr Amgueddfa wyneb-yn-wyneb ac ar-lein trwy Google Forms | Mae'n bosibl bod gwirfoddolwyr yn medru amharu ar ymatebion ymwelwyr neu bobl leol. Fodd bynnag, dyma oedd yr unig ffordd effeithiol o gysylltu â rhanddeiliaid, gan mai'r gwirfoddolwyr a welodd yr unigolion yn ymweld â'r Amgueddfa.<br><br>Wrth ddadansoddi'r data, cymerwyd gofal. Defnyddiwyd y dull pellter a deithiwyd gennym hefyd i sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth gywir o faint o newid a brofwyd gan y rhanddeiliaid. Hefyd, defnyddiwyd y dull angori i sicrhau bod pob canlyniad a nodwyd yn cael ei fesur yn unol â'i gilydd o ran y gwerth a roddwyd ar y canlyniadau. |
| **Rhagweld mewnbynnau ariannol**– risg ein bod naill ai'n gor-adrodd neu'n tan-adrodd y mewnbynnau ariannol ar gyfer ail flwyddyn y prosiect | Cymerwyd pob gofal i sicrhau bod y cyfrifiadau ar gyfer ail flwyddyn y prosiect mor gywir â phosibl. Cymerwyd camau i ddefnyddio 5% o fewnbwn ariannol ychwanegol o gymharu â blwyddyn un, yn unol â data cpi, a phriodolwyd yr un rhagdybiaeth o 5% i bob ffactor ariannol i fod yn gyson ar draws pob mewnbwn ariannol. |
| **Nifer y bobl sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad–** 10% o'r | Er mwyn sicrhau nad oeddem yn cynnwys gormod o bobl fel rhan o'r asesiad, cymerwyd camau i ddeall nifer gwirioneddol y bobl sy'n ymwneud â'r Amgueddfa. Gan fod yr ymatebion i'r |

| | |
|---|---|
| sampl o ymwelwyr a bobl leol sydd wedi cael cynnwys yn y map gwerth. | arolygon ar gyfer ymwelwyr a phobl leol yn isel, lluoswyd yr ymatebion i'r arolwg â 10 ar gyfer y ddau randdeiliaid er mwyn cynnwys niferoedd priodol o ymwelwyr a phobl leol yn y map gwerth. Bydd angen mwy o ymatebion yn y dyfodol i gynnwys mwy o bobl. |

## 14.0 Proses Ddilysu

Yn unol ag egwyddorion gwerth cymdeithasol mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn gwirio'r wybodaeth rydym yn ei chynnwys. I wirio'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer pobl leol, ymwelwyr, gwirfoddolwyr, disgyblion ac athrawon gwnaethom hyn drwy siarad â phobl y gymuned a'r pwyllgor. Er enghraifft, yn ystod y 26 o gyfweliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd gennym gyda phobl leol, cyrhaeddom y pwynt dirlawnder lle na chlywsom unrhyw beth newydd ar ôl yr 10fed cyfweliad. Hefyd, ar ddiwedd pob cyfweliad, gwnaethom egluro'r canlyniadau yr oeddem yn credu bod pobl wedi'u crybwyll a gwnaethant wirio ein bod yn gywir cyn dod â'r cyfweliad i ben. Rhoi hyder pellach ein bod wedi nodi'r canlyniadau cywir.

Felly, er mwyn gwirio'r canlyniadau a gafwyd wrth gynnal y cyfweliad fe ofynnom i'r cyfweleion a oeddent yn cytuno ai peidio â'r canlyniadau a nodwyd gennym. Roedd mwyafrif y cyfweleion yn cytuno ac yn gwirio bod y canlyniadau a nodwyd yn adlewyrchiad cywir o'r newidiadau y mae pobl yn eu profi wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Amgueddfa.

Ar gyfer yr ymwelwyr, fe wnaethom gyrraedd y pwynt dirlawnder ar ôl tua'r 5ed cyfweliad, yn y 4 cyfweliad nesaf a gynhaliwyd, gwnaethom ofyn i'r ymwelwyr am eu barn ar y canlyniadau a nodwyd gennym i wneud yn siŵr eu bod yn gwirio ein bod ar y trywydd iawn.

Ar gyfer disgyblion, roedd y grŵp ffocws gyda'r plant i gyd oedd wedi mynychu'r Amgueddfa yn ffordd dda o gael ei barn. Ar ddiwedd y grŵp ffocws gwnaethom egluro'r canlyniadau yr oeddem yn credu bod pobl wedi'u crybwyll a gwnaethant wirio ein bod yn gywir. Wrth gyfweld gyda'r athrawon ac o fewn yr holiaduron i'r athrawon, roeddynt hefyd wedi gwirio'r deilliannau fe wnaethon ni nodi ar gyfer y disgyblion.

Ar gyfer athrawon, fe wnaethom gyrraedd y pwynt dirlawnder ar ôl y 3ydd cyfweliad. Gwnaethom ofyn i'r athrawon am eu barn ar y canlyniadau a nodwyd gennym ar ddiwedd y cyfweliad i wneud yn siŵr eu bod yn gwirio ein bod ar y trywydd iawn.

Ar gyfer dilysu pellach, dangosasom i'r gwirfoddolwyr a rheolwr yr Amgueddfa ddamcaniaeth y newidiadau a luniwyd gennym ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid er mwyn cael eu mewnbwn, ac er eu bod yn argymell rhai newidiadau, fe wnaethant ddilysu a chytuno bod y canlyniadau a nodwyd ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid ar hyd y llinellau cywir.

Yn olaf, gofynnwyd i bartneriaid hefyd o fewn arolygon a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr, a roddodd hyn hyder i ni yn y canlyniadau a nodwyd hefyd.

## 15.0 Casgliad a Chanfyddiadau Allweddol

***Mae'r adroddiad hwn wedi dangos y rhagwelir y bydd Amgueddfa Forwrol Llŷn yn creu dros £800,000.00 o werth, gydag ystod o rhwng £3.00 - £6.16 gydag awgrym o £4.69 o werth yn cael ei greu.***

***Yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol yw bod bywydau pobl wedi'u newid yn gadarnhaol.***

Mae'r adroddiad rhagolwg SROI hwn wedi dangos pwysigrwydd Amgueddfa Forwrol Llŷn i ymwelwyr, pobl leol, disgyblion ac athrawon sy'n ymwneud gyda gweithgareddau'r Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa yn galon i'r gymuned ac yn bwysig iawn er mwyn portreadu hanes Morwrol lleol, iaith a threftadaeth ar gyfer ymwelwyr, pobl leol addysg ac yn bwysicaf oll, i'r genhedlaeth nesaf yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi pum grŵp rhanddeiliaid allweddol ar gyfer yr Amgueddfa. Un o'r rhanddeiliaid allweddol yw'r gwirfoddolwyr. Heb ei bod nhw'n rhoi ei amser i redeg yr Amgueddfa o ddydd i ddydd, ni fysai canlyniadau hyn yn bosibl. Roedd gwirfoddolwyr yn gweld gwerth mawr wrth ymwneud gyda'r Amgueddfa ac un o'r rhesymau mwyaf am hyn yw ei bod nhw'n teimlo'r balchder o allu portreadu hanes Pen Llŷn a'i bobl. Roedd yn glir iawn bod gwirfoddolwyr yn mwynhau cael y cyfle i gymdeithasu gydag ymwelwyr, pobl leol a gwirfoddolwyr eraill sydd yn arwain tuag at ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned. Gan fod gwirfoddolwyr hefyd yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd yn rheolaidd yn yr Amgueddfa, roeddynt yn datblygu hunanhyder gwell.

Yr ail grŵp rhanddeiliaid allweddol yw'r ymwelwyr. Mae ymwelwyr yn gweld gwerth mawr mewn ymweld â'r Amgueddfa i ddysgu am hanes, treftadaeth a phwysigrwydd yr iaith i Nefyn a Phen Llŷn. Wrth gael sgwrs gydag ymwelwyr a phobl leol eraill yn ogystal ag gwirfoddolwyr yn yr Amgueddfa, mae ymwelwyr yn cael cyfle i gymdeithasu ac yn clywed mwy am beth sydd ar gael yn yr ardal leol sydd yn hybu economi Pen Llŷn.

Y trydydd grŵp rhanddeiliaid allweddol nodwyd oedd pobl leol. Yn yr un modd a'r gwirfoddolwyr, wrth i bobl leol ymweld â'r Amgueddfa, maen nhw'n teimlo'r balchder am eu treftadaeth. Mae'n bwysig iawn i lawer o bobl leol bod yr Amgueddfa yn medru cario mlaen portreadu hanes lleol fel bod y genhedlaeth nesaf yn medru portreadu'r hanes yn y dyfodol. Mae nifer o bobl leol yn mwynhau cymdeithasu o fewn y digwyddiadau sydd yn cael ei threfnu o fewn yr Amgueddfa ac mae hyn yn dilyn i ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned.

Mae disgyblion mewn ysgolion hefyd yn rhanddeiliaid pwysig i'r Amgueddfa. Nod pwysig iawn i'r Amgueddfa yw bod y genhedlaeth nesaf yn dysgu ac yn ymwybodol o hanes a threftadaeth forwrol leol er mwyn gallu parhau â'i hetifeddiaeth i'r dyfodol. Wrth ymweld â'r Amgueddfa, teimlai disgyblion fod ganddynt well gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol a oedd yn gwneud i ddisgyblion deimlo'n falch o'u treftadaeth.

Roedd yr athrawon o fewn ysgolion hefyd yn gweld bydd allan o ymwneud gyda'r Amgueddfa. Roedd ymweld â'r arteffactau a derbyn pecyn gwaith gan y gwirfoddolwyr yn codi hyder yr athrawon i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a threftadaeth leol yn benodol. Heb gael y straeon personol yma, ni fysai'r adnoddau ar gael i athrawon i rannu gyda'i disgyblion.

## *Canfyddiadau allweddol*

### Gwirfoddolwyr

- 95% o wirfoddolwyr yn teimlo'n falch eu bod yn gallu arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl.
- 86% o wirfoddolwyr gyda hunanhyder gwell wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd.
- 95% o wirfoddolwyr gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned.

### Ymwelwyr

- 100% o ymwelwyr gyda gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad gyda hanes a diwylliant ardal Nefyn a Phen Llŷn.
- 81% o ymwelwyr yn cael cyfle i gymdeithasu.

### Pobl Lleol

- 83% o bobl leol gyda theimlad cynyddol o falchder yn eu treftadaeth.
- 66% o bobl leol gydag ymdeimlad cynyddol o berthyn i'r gymuned.

### Disgyblion

- Mae gan 81% o ddisgyblion well gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hanes lleol sy'n arwain at deimlad cynyddol o falchder am eu treftadaeth.

### Athrawon

- 100% o athrawon gyda gwell hyder i addysgu disgyblion am yr Ail Ryfel Byd a'r dreftadaeth leol

Yn olaf, er bod llawer o ddeilliannau cadarnhaol wedi'u nodi yn yr adroddiad, mae hefyd yn bwysig cydnabod gwelliannau y gall Amgueddfa Forwrol Llŷn eu gwneud i wella'r effaith gymdeithasol y mae'n ei chreu. Mae angen gwella'r cyfathrebu cyffredinol, roedd pobl leol yn teimlo bod dim digon o hysbysebu o amgylch y digwyddiadau sydd yn cael ei chynnal yn yr Amgueddfa. Mae angen targedu diddordeb mwy o blant a phobl ifanc fel bod yr hanes yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ond hefyd i gael mwy o wirfoddolwyr ar gyfer y dyfodol. Mae mwy o amrywiaeth hefyd yn bwysig – fel cynnig sesiynau croeso cynnes ar gyfer pobl leol a newid yr arteffactau yn amlach i ddenu mwy o ymwelwyr yn nol. Rhoddir rhai argymhellion isod i fynd i'r afael â'r bylchau presennol.

# 16.0 Argymhellion

## 16.1 Diweddaru'r arddangosfa a mwy o digwyddiadau

Roedd pobl leol yn enwedig yn nodi base nhw'n hoffi gweld mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol yn cael ei drefnu yn yr Amgueddfa fel mwy o ddarlithoedd a digwyddiadau sydd yn dathlu hanes lleol. Roeddent hefyd yn nodi base nhw'n hoffi gweld bod yr Amgueddfa yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau 'Croeso Cynnes.' Base hyn yn medru magu mwy o ddiddordeb i'r gymuned leol i ymweld â'r Amgueddfa ac efallai magu diddordeb i fwy o bobl yn y gymuned i wirfoddoli.

Roedd rhai partneriaethau megis Nant Gwrtheyrn hefyd yn nodi base nhw hoffi cydweithio mwy gyda'r Amgueddfa wrth gynnal digwyddiadau ar y cyd er mwyn denu mwy o bobl i'r sefydliadau. Roedd rheolwr Nant Gwrtheyrn, er enghraifft, yn nodi base nhw'n hoffi creu pecyn lle mae criw o bobl yn medru ymweld â Nant Gwrtheyrn yn ystod y bore ac yna i'r Amgueddfa yn ystod y prynhawn. Roedd Nant Gwrtheyrn yn benodol hefyd gyda diddordeb i gynnal mwy o weithdai yn yr wythnos ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Roedd y rheolwr yn nodi ei bod wedi gweld digwyddiad roedd yr Amgueddfa wedi gwneud ar gyfer disgyblion gyda Gwyneth Glyn a maen nhw'n hoffi gwneud y math yma o weithgaredd gyda dysgwyr sydd yn cael mynediad at ei chyrsiau dysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn. Roedd rheolwr Nant Gwrtheyrn yn nodi base nhw'n fodlon talu am y gweithgareddau yma sydd yn golygu bysai yn dod a mwy o bobl i'r Amgueddfa ond hefyd yn creu incwm i'r Amgueddfa hefyd.

Roedd hefyd yn dod i sylw gan bobl leol a disgyblion eu bod nhw eisiau gweld yr arddangosfa yn cael ei diweddaru yn amlach a bod gweithgareddau mwy creadigol yn cael ei wneud wrth i ddisgyblion ymweld â'r Amgueddfa. Fel dangoswyd o fewn ymchwil Morris Hargreaves a McIntyre yn 2020, roedd 90% o bobl ifanc yn teimlo bod amgueddfeydd ddim yn ystyried nhw fel cynulleidfa bwysig. Felly, mae'n bwysig iawn i'r Amgueddfa ystyried targedu mwy o weithgareddau yn defnyddio technoleg a chreadigrwydd i gadw diddordeb plant a phobl ifanc. Gobeithio gall hyn magu mwy o ddiddordeb plant a phobl ifanc o fewn y maes ac efallai arwain at fwy o wirfoddolwyr ifanc er mwyn cadw'r sefydliad fynd yn y dyfodol.

## 16.2 Gwell hysbysebu a cyfathrebu

Roedd llawer o bobl leol yn rhoi sylw gallai'r Amgueddfa hysbysebu ei digwyddiadau yn well. Roedd rhai pobl yn nodi nad oeddent yn gweld pryd mae digwyddiadau y mlaen. Wrth drafod gyda phobl leol a gwasanaethau yn yr ardal, roeddynt yn nodi nad oedd ganddynt fynediad at daflenni gwybodaeth neu bosteri er mwyn rhannu o gwmpas yr ardal neu o fewn busnesau lleol. Bysem felly yn argymell bod buddsoddiad yn cael ei rhoi i greu taflenni gwybodaeth a'i dosbarthu.

Er bod yr Amgueddfa yn rhan o'r Ecoamgueddfa, roedd rheolwr prosiect yr Ecoamgueddfa yn nodi base'r Amgueddfa medru gwneud mwy o ddefnydd o'r bartneriaeth er mwyn hysbysebu ei sefydliad yn rhagor. Mae hyn yn cynnwys rhannu posteri a chreu hysbysebion digidol fel bod sianeli Ecoamgueddfa ei hun medru rhannu'r hysbysebion ond bod partneriaethau fel Nant Gwrtheyrn ac Oriel Plas Glyn y Weddw hefyd medru rhannu'r digwyddiadau o fewn ei sianeli ar-lein ac o fewn ei sefydliadau. Roedd rhai sefydliadau lleol fel Tafarn yr Heliwr, Nefyn, yn nodi o fewn y broses ymgysylltu base nhw'n fodlon iawn i gydweithio mwy er mwyn hysbysebu digwyddiadau ei gilydd. Wrth drafod gyda Gweithiwr Cymunedol Yr Heliwr, roedd hi'n dweud base'r Amgueddfa medru rhoi posteri a thaflenni gwybodaeth ar ei hysbysfwrdd o fewn Yr Heliwr.

Roedd llawer o bartneriaid yn nodi bod angen amrywio y math o hysbysebu er mwyn denu gwahanol oedrannau fel defnyddio mwy o gyfryngau cymdeithasol ond hefyd defnyddio posteri a thaflenni wybodaeth. Roedd sawl partner wedi nodi eu bod yn hapus rhoi'r posteri a thaflenni wybodaeth o fewn ei sefydliad er mwyn denu mwy o bobl leol.

## 16.3 Ymestyn oriau agor

Roedd rhai pobl leol ac ymwelwyr wedi nodi base nhw'n hoffi gweld oriau agor yr Amgueddfa yn ymestyn. Ar hyn o bryd mae'r Amgueddfa ar agor Ebrill – Hydref ar ddyddiau Mercher i Ddydd Sul. Ond, base rhai ymwelwyr a phobl leol yn hoffi oriau agor yn ymestyn i gynnwys Dydd Llun a Dydd Mawrth, a rhai eisiau'r Amgueddfa fod ar gael ar ôl mis Hydref. Ffactor base angen cael ei ystyried wrth feddwl am hyn yw oriau gwirfoddoli – bydd angen ystyried mwy o wirfoddolwyr er mwyn ymestyn oriau agor. Felly, wrth fuddsoddi mewn i feysydd eraill fel hysbysebu a denu mwy o wirfoddolwyr, yna bysai ymestyn yr oriau agor medru cael ei ystyried.

### 16.4 Ffactorau ar gyfer gwirfoddolwyr

Mae’n bwysig iawn nodi bod bob grŵp rhanddeiliaid sydd wedi ymgysylltu gyda’r dadansoddiad yn pwysleisio gwerthfawrogiad i’r gwirfoddolwyr am roi eu hamser ac am fod yn gyfeillgar iawn.

Roedd rhai ffactorau roedd wedi cael ei nodi sydd angen cael ei ystyried er mwyn gwella’r meysydd hyn wrth symud ymlaen gyda’r posibilrwydd o gynyddu’r effaith gymdeithasol a grëwyd gan Amgueddfa Forwrol Llŷn. Un o’r pethau gafodd ei nodi oedd hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr. Roedd rhai ymwelwyr yn nodi bod base datblygu gwybodaeth a sgiliau'r gwirfoddolwyr i adnabod prisiau eitemau yn y siop, defnyddio technoleg ac i ddefnyddio’r til o fudd.

Roedd rhai gwirfoddolwyr wedi nodi byddent yn hoffi mwy o gyfleodd i gysylltu gyda’i gilydd. Roedd y gwirfoddolwyr wedi nodi bod grŵp Whatsapp wedi sefydlu yn ddiweddar a bod hyn wedi helpu. Ond, bysai’n werth trefnu cyfarfodydd ar ddechrau a diwedd tymor fel bod gwirfoddolwyr yn medru dod at ei gilydd i rannu syniadau a phroblemau fel bod nhw’n teimlo yn rhan o’r cynllunio ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau ac arteffactau, a'u bod yn rhan o’r broses i ddatrys unrhyw broblemau.

### 16.5 Casglu data

Er mwyn sylweddoli faint o newid ac effaith mae prosiectau yn ei gael ar randdeiliaid mae angen data arnom i ddeall a oes unrhyw newid, ac os felly, faint o newid. Mae angen inni hefyd sefydlu a oes gwahaniaethau yn anghenion unigolion. Argymhellir felly bod unrhyw barhad o’r cynllun hwn angen buddsoddiad yn yr amser a’r cyllid i sicrhau bod systemau a phrosesau addas yn eu lle i fesur gwerth cymdeithasol, gan ymestyn hyn i gynnwys rhanddeiliaid pwysig eraill. Pan fydd data o'r fath yn cael ei gasglu dros amser, mae'n bosibl defnyddio'r canlyniadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn y pen draw, mae hyn yn golygu nad yw gwerth yn cael ei fesur yn unig, ond ei fod yn cael ei reoli i wella effeithiau'r prosiect.

Bysem yn argymell bod mwy o ddata yn cael ei chasglu gan ymwelwyr a phobl leol fel bod mwy o bobl yn medru cael ei chynnwys yn y Map Gwerth, ond mwy na dim, i ddeall mwy am y newidiadau er mwyn siapio'r gwasanaeth.

## 17.0 Atodiadau

Atodiad 1 – Map gwerth (ar wahan ir ddogfen hon)

Atodiad 2 - Theori o newid Gwirfoddolwyr

Atodiad 3 – Arolwg Gwirfoddolwyr

Atodiad 4 – Theori o newid Ymwelwyr

Atodiad 5 – Arolwg Ymwelwyr

Atodiad 6 – Theori o newid Pobl Lleol

Atodiad 7 – Arolwg Pobl Lleol

Atodiad 8 – Theori o newid Addysg

Atodiad 9 – Arolwg Disgyblion

Atodiad 10 – Arolwg Athrawon

Atodiad 11 – Arolwg Partneriaid

Atodiad 12 – Gwelliannau posibl

Atodiad 13 - Sut mae'r canlyniadau'n berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

## 17.2 Atodiad 2: Theori o Newid Gwirfoddolwyr



# 17.3 Atodiad 3: Arolwg Gwirfoddolwyr

## Holiadur Effaith Amgueddfa Forwrol Llŷn: Gwirfoddolwyr

**Beth yw pwrpas yr arolwg hwn?**

Mae Amgueddfa Forwrol Llŷn wedi llwyddo i ennill arian o Gronfa Ffyniant Cyffredin i gynnal gwaith uwchraddio ar yr adeilad. O ganlyniad, mae Mantell Gwynedd yn paratoi gwerthusiad gwerth cymdeithasol i ddeall pa mor bwysig yw'r amgueddfa i bobl leol, ymwelwyr a gwirfoddolwyr. Mae hefyd yn anelu at ddeall pa wahaniaeth mae'r amgueddfa a'i gweithgareddau'n ei wneud. Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn llenwi'r holiadur hwn i leisio eich profiadau gydag Amgueddfa Forwrol Llŷn.

Bydd y gwerthusiad gwerth cymdeithasol o fudd i Amgueddfa Forwrol Llŷn i ddeall gwerth yr amgueddfa er mwyn ceisio sicrhau cyllid yn y dyfodol. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu a gwella'r profiadau.

**Diogelu Data**

Bydd eich ymateb yn cael ei drin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd eich holl atebion yn aros yn gyfrinachol ac yn ddienw. Dim ond canlyniadau arolwg cyffredinol fydd yn cael eu cyhoeddi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn, cysylltwch â:- Tîm Social Value Cymru:- svc@mantellgwynedd.com.

* Indicates required question

Amgueddfa Forwrol Llŷn Maritime Museum | SOCIAL VALUE CYMRU | FFYNIANT BRO

1. ***A allwch chi nodi'r ardal rydych chi'n byw ynddi, os gwelwch yn dda:-***

*Mark only one oval.*

- ◯ Nefyn
- ◯ Morfa Nefyn
- ◯ Dinas
- ◯ Porthdinllaen
- ◯ Llanengan
- ◯ Botwnnog
- ◯ Llanbedrog
- ◯ Llifaen
- ◯ Abersoch
- ◯ Aberdaron
- ◯ Trefor
- ◯ Other: ____________

2. ***A allwch chi ddewis eich rhyw os gwelwch yn dda:-*** *

*Mark only one oval.*

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw
- ◯ Arall
- ◯ Yn well gen i beidio â dweud

3. ***Oedran:-*** *

*Mark only one oval.*

- ◯ O dan 18
- ◯ 18 - 24
- ◯ 25 - 34
- ◯ 35 - 44
- ◯ 45 - 54
- ◯ 55 - 64
- ◯ 65+

4. ***Beth yw eich gwybodaeth am yr iaith Gymraeg?*** *

*Mark only one oval.*

- ◯ Rwy'n rhugl yn y Gymraeg
- ◯ Dw i'n dysgu Cymraeg
- ◯ Dim ond ychydig o eiriau rwy'n eu hadnabod
- ◯ Dydw i ddim yn siarad Cymraeg

5. ***Am faint ydych chi wedi bod yn gwirfoddoli yn Amgueddfa Forwrol Llŷn?*** *

*Tick all that apply.*

- ☐ O dan flwyddyn
- ☐ 1 - 2 flynedd
- ☐ 3 - 5 mlynedd
- ☐ 5 - 7 mlynedd
- ☐ 7 - 9 mlynedd
- ☐ 10 + mlynedd

6. ***Yn eich geiriau eich hun, pam rydych chi'n gwirfoddoli yn Amgueddfa Forwrol Llŷn?*** *

7. **Beth ydych chi'n teimlo sydd wedi newid i chi oherwydd eich bod chi'n gwirfoddoli yn Amgueddfa Forwrol *Llŷn*? Ticiwch y blwch sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n teimlo a faint o newid rydych chi wedi'i brofi.** *

*Mark only one oval per row.*

| | Dim newid | Ychydig o newid | Rhywfaint o newid | Cryn dipyn o newid | Llawer o newid | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i fwy o gyfleoedd i gymdeithasu | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rydw i wedi dod i adnabod ymwelwyr, pobl lleol a gwirfoddolwyr eraill | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Mae gen i fwy o gyfleoedd i ddatblygu fy iaith Gymraeg | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rwy'n teimlo'n rhan o dim | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rwy'n teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn yn y gymuned | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rydw i wedi dysgu sgiliau newydd | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rwy'n teimlo'n falch fy mod yn rhan o arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Mae gen i hunan-barch cynyddol | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Cyfle cynyddol i ddiogelu hanes Nefyn a Phen Llŷn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |

8. ***Gan ddewis o'r rhestr o newidiadau a restrir isod ar raddfa o 1-10, lle mae 10 yn bwysig iawn i chi, a allwch chi ddweud pa mor bwysig yw'r newidiadau hyn i chi?***

*Mark only one oval per row.*

| | 1 (Ddim yn bwysig o gwbl) | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 (Eithriadol o bwysig) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n teimlo'n falch fy mod yn rhan o arddangos a phortreadu hanes Pen Llŷn a'i phobl. | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Mae gen i hunan-barch cynyddol | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |
| Rwy'n teimlo ymdeimlad cynyddol o berthyn yn y gymuned | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ | ⬭ |

9. ***Ydych chi'n gwirfoddoli yn unrhyw le arall? Os yw eich ateb yn ie, nodwch ble os gwelwch yn dda.*** *

